

# Derbyn i Ysgolion Gwybodaeth i Rieni 2024-2025



Cyhoeddwyd yn Hydref 2023



Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn unrhyw fformat arall, cysylltwch â'r Uned Derbyn i Ysgolion yn yr Adran Addysg a Phlant ar 01267 246449.

Cyhoeddir y llyfryn hwn gan Gyngor Sir Caerfyrddin ac yn cynnwys gwybodaeth y mae'n ofynnol i'r Cyngor ei chyhoeddi o dan Adran 92 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion a Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011.

# Cyflwyniad

Diolch i chi am wneud cais am le yn un o ysgolion Sir Gaerfyrddin. Rydym yn ffodus bod gennym ysgolion gwych a staff o'r safon uchaf.

Ein gweledigaeth fel Adran Addysg yw cefnogi holl ddysgwyr Sir Gaerfyrddin gan sicrhau eu bod yn hapus, yn ddiogel ac yn ffynnu, a'u bod yn cyflawni eu potensial personol a chymdeithasol a'u potensial o ran dysgu. Fel gwasanaeth ymdrechwn i fod y gorau y gallwn fod a chael ein parchu'n lleol, tra'n ennill cydnabyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol.

Gweithiwn yn ddiwyd i ddarparu addysg o'r safon uchaf bosibl er mwyn datblygu...

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau.
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.

Ym mis Gorffennaf, 2023 cafodd ein Gwasanaethau Addysg eu harolygu gan Estyn. Mae'r adroddiad cynhwysfawr, sydd ar [wefan Estyn](#) sydd yn nodi ystod o gryfderau ac yn cadarnhau ein bod yn darparu gwasanaethau o safon uchel i gwrdd ag anghenion dysgwyr Sir Gâr. Cydnabyddir pwysigrwydd ac addasrwydd ein **Strategaeth 10 mlynedd [Addysg Sir Gâr 2022-2032](#)** i sefydlu gwasanaethau addysg cynaliadwy sydd hefyd yn rhoi ystyriaeth gadarn iawn i'r egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ein nod yw bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd i ddod yn ddwyieithog neu'n amlieithog. Gweledigaeth y Cabinet yw ehangu addysg ddwyieithog ymhellach yn Sir Gaerfyrddin gan alluogi ein dysgwyr i ddod yn ddinasyddion dwyieithog a bod mewn sefyllfa well ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol. Am fwy o wybodaeth am fanteision dwyieithrwydd edrychwch ar y wybodaeth gynhwysfawr sydd ar wefan y Cyngor Sir.

Rwy'n gobeithio y bydd y canllaw hwn o help i reini/gofalwyr plant sy'n dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf, ac i reini/gofalwyr plant sy'n symud i'r ardal. Rydym yn sylweddoli bod dewis ysgol yn gallu bod yn her ond rydym yn cydnabod pwysigrwydd y penderfyniad hwn i chi fel rhieni neu ofalwyr. Lluniwyd y canllaw hwn er mwyn eich cefnogi chi yn y broses honno ac mae'n cynnwys:

- gwybodaeth gyffredinol ynghylch ein hysgolion
- cyngor ynghylch sut a phryd y mae angen ichi wneud cais am le mewn ysgol

- y broses o roi lleoedd ac
- ystod o bolisiau megis cludiant ysgol a allai fod yn berthnasol i'ch amgylchiadau.

Cyn ichi benderfynu'n derfynol ar eich dewis o ysgol rydym yn eich annog i gysylltu â'r ysgolion yn eich ardal a threfnu ymweliad er mwyn trafod y ddarpariaeth sydd ar gael a'ch amgylchiadau unigol gyda nhw. Bydd gwybodaeth hefyd ar gael ar wefannau'r ysgolion unigol ac yn eu prosbectysau hefyd.

Sylwch nad oes sicrwydd y derbynnir plentyn i'r ysgol o'ch dewis. Mae terfynau caeth ar nifer y disgyblion y gellir eu derbyn i bob ysgol. Os derbynnir mwy o geisiadau nag sydd o lefydd, yn gyfreithiol, mae'n rhaid prosesu'r ceisiadau a ddaeth i law erbyn y dyddiad cau yn gyntaf, gan ddefnyddio'r meini prawf gorolw, y nodir eu manylion yn y llyfryn hwn, i bennu'r flaenoriaeth o ran rhoi'r llefydd sydd ar gael. I osgoi siom ac i gael y siawns fwyaf o gael lle yn eich dewis ysgol, gofawch eich bod yn cyflwyno'ch cais erbyn y dyddiad cau a bennwyd.

Edrychwn ymlaen at groesawu eich plentyn i un o'n hysgolion a dymunwn bob llwyddiant iddo.

**Gareth Morgans** -Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

# Cynnwys

## A. Derbyn i ysgolion Sir Gaerfyrddin

1. Awdurdodau Derbyn .....	5
2. Pryd i gyflwyno cais – Amserlen Trefniadau Derbyn Arferol.....	7
3. Oedran dechrau ysgol – Grwpiau Blwyddyn/Oeddrannau .....	9
4. Derbyn plant i Ysgol Uwchradd ar Chweched Dosbarth .....	11
5. Dewis Ysgol .....	13
6. Sut mae gwneud cais .....	16
7. Rhoi Llefydd – Y Meini Prawf Gor-alw .....	20
8. Symud/Newid Ysgol y tu allan i drefniadau derbyn arferol.....	23
9. Hysbysu Cynnig lle Ysgol .....	24
10. Apeliadau Derbyn I Ysgol .....	26
11. Derbyn i Ysgolion Gwirfoddol a Gymorthedig .....	28

## B. Gwybodaeth ynghylch Addysg a Dysgu

1. Tymhorau Ysgol a Gwyliau .....	35
2. Cwricwlwm Ysgol.....	36
3. Dysgu'r Gymraeg a'r Saesneg mewn Ysgolion.....	37
4. Arholiadau Cyhoeddus.....	40
5. Gwahardd Disgyblion .....	40
6. Taliadau gweithgareddau Ysgol.....	41
7. Dyddiad gadael Ysgol .....	41
8. Cyrff Llywodraethu Ysgolion .....	41

## C. Gwasanaethau i Disgyblion

1. Diwallu Anghenion Addysgol Ychwanegol/Arbennig.....	42
2. Cludiant Ysgol.....	46
3. Prydiau Ysgol a Grant Datblygu Disgyblion.. ..	52
4. Lwfans Cynhaliath Addysg (EMA) .....	56
5. Y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion .....	56
6. Ymddiriedolaethau Elusennol .....	57
7. Gwasanaeth Gyrfaoedd .....	57
8. Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd .....	58
9. Cynnig Gofal Plant .....	59
10. Ysgolion Iach .....	59
11. Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang .....	60

<b>Crynodeb o Disgyblion ac Ysgolion Sir Gaerfyrddin .....</b>	<b>63</b>
--	-----------

<b>Map o Ysgolion .....</b>	<b>64</b>
-----------------------------	-----------

<b>Rhestr o Ysgolion .....</b>	<b>67</b>
--------------------------------	-----------

# Adran A – Derbyn I Ysgolion Sir Gaerfyrddin

## Ffeithiau Allweddol

- Nid oes hawl awtomatig i le mewn ysgol.
- Rhaid ichi gyflwyno cais i awdurdod derbyn er mwyn i'ch plentyn cael lle mewn ysgol.
- Mae Terfyn ar nifer ddisgyblion y gellir eu derbyn i ysgol mewn blwyddyn. Ar ôl cyrraedd y terfyn, ni chaniateir derbyn rhagor o ddisgyblion.
- Os oes gan eich plentyn anghenion dysgu ychwanegol fe'ch cynghorir i gysylltu â Phennaeth yr ysgol neu Swyddog Cynnydd Disgyblion yr Adran cyn cyflwyno cais.
- Gwnewch gais erbyn y dyddiadau cau - gweler yr Amserlen Derbyn i Ysgolion.
- Os byddwch yn cyflwyno cais ar ôl y dyddiadau hyn caiff ei drin fel cais hwyr a bydd yn cael ei ystyried ar ôl y rhai a dderbyniwyd cyn y dyddiad cau. Bydd hyn yn lleihau'r siawns o gael lle i'ch plentyn mewn ysgol o'ch dewis.
- Os cynigir lle i'ch plentyn, mae'n rhaid ichi dderbyn y lle erbyn y dyddiad a bennwyd neu bydd y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl a chynigir y lle i ddisgybl arall.

## 1. Awdurdodau Derbyn

Rheolir y drefn o dderbyn plant i ysgolion gan Awdurdod Derbyn.

### Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Rheoledig yn Sir Gaerfyrddin

Yn achos ysgolion cymunedol (a adnabwyd gynt fel ysgolion sirol) ac ysgolion Gwirfoddol a Rheoledig yn Sir Gaerfyrddin, Awdurdod Lleol (ALL) Sir Gaerfyrddin yw'r Awdurdod Derbyn. Mae manylion cyswllt Cyngor Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:

Yr Adran Addysg a Phlant

Neuadd y Sir

Caerfyrddin

SA31 1JP

Ffon: 01267 246449

E-bost: [derbyniadau@sirgar.gov.uk](mailto:derbyniadau@sirgar.gov.uk)

## Ysgolion Gwirfoddol Gymorthedig yn Sir Gaerfyrddin

Ar gyfer ymholiadau ynghylch Ysgolion Eglwysig Gwirfoddol Gymorthedig cysylltwch â'r canlynol:

### Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru

Y Parchedig John Cecil, Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth, Y Ficerdy, Steynton, Aberdaugleddau, Sir Benfro, SA73 1AW

Ffon: **01646 692974**

E-bost: [revjohncecil@btinternet.com](mailto:revjohncecil@btinternet.com)

### Ysgolion Catholig

Mr Paul White, Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth, Swyddfa Addysg yr Esgobaeth, Y Swyddfeydd,, 27 Stryd Y Cwfaint, Greenhill, Abertawe, SA1 2BX

Ffon: **01792 652757** Ffacs: 01792 458641

E-bost: [education@menevia.org.uk](mailto:education@menevia.org.uk)

## Awdurdodau Addysg Lleol Cyfagos

Y canlynol yw enwau, cyfeiriadau a rhifau ffôn yr awdurdodau addysg lleol cyfagos:

**ABERTAWE** - Cyfarwyddwr Addysg, Dinas a Sir Abertawe, Neuadd y Ddinas, Abertawe, SA1 4PE

Ffon: **01792 637521**

**CEREDIGION** – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dysgu Gydol Oes a Phrif Swyddog addysg, Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UE

Ffon: **01970 633656**

**CASTELL-NEDD PORT TALBOT** Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Bwrdeistref Siriol Castell-nedd Port Tabbot, Y Canolfan Ddinesig, Castell Nedd Port Talbot SA13 1PJ

Ffon: **01639 686868**

**POWYS** - Cyfarwyddwr Addysg a Phlant, Cyngor Sir Powys, Neuadd Sir Powys, Spa Road East, Llandrindod Wells, LD1 5LG.

Ffon: **01597 826422**

**SIR BENFRO** - Cyfarwyddwr Addysg, Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd, SA61 1TP Ffon: **01437 764551**

## Trefniadau derbyn arferol ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2024 – 2025

Y manylir ar y rhan hon o'r ddogfen yw gweithdrefnau Sir Gaerfyrddin sy'n amlinellu'r pwynt mynediad arferol i drefniadau Meithrin, Cynradd, Uwchradd a chweched dosbarth ar gyfer y flwyddyn academiaidd.

### **Pwyntiau allweddol ar gyfer Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Rheoledig-**

- Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i rieni/Gwarcheidwad wneud cais i'r Awdurdod am lle.
- Nodir dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau yn yr Amserlen Trefniadau Derbyn yn y ddogfen hon.
- Rhaid gwneud cais erbyn y dyddiadau cau.
- Ni fydd disgyblion yn trosglwyddo'n awtomatig i'r Ysgol Gynradd o'r Ysgol Feithrin.
- Ni fydd disgyblion yn trosglwyddo'n awtomatig i'r Ysgol Uwchradd o'r Ysgol Gynradd.
- Mae ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiadau cau yn annhebygol o gael lle yn eu hysgol dewis cyntaf.
- Defnyddir Meini Prawf Gor-alw penodol wrth ddyrannu lle mewn ysgol.
- Wrth ddyrannu lleoedd, ni roddir ystyriaeth i'r ysgol feithrin a'r ysgol gynradd y mae'r disgybl yn ei mynychu. Y cyfeiriad cartref fydd yn cael ei ystyried wrth dderbyn i ysgolion.
- Nid yw'n bosibl i unrhyw unigolyn nac ysgol roi sicrwydd ymlaen llaw y bydd lle ar gael i blentyn mewn ysgol. Dylid diystyru sylwadau neu addewidion o'r fath.
- Anfonir e-bost neu lythyr gan yr Awdurdod yn rhoi gwybod a yw'r cais wedi bod yn llwyddiannus neu wedi'i wrthod.
- Ni chaiff plentyn ddechrau yn yr ysgol hyd nes bod y rhiant/ gwarcheidwad wedi cadarnhau ei fod yn derbyn y lle sy'n cael ei cynnig gyda'r Awdurdod.



## 2. Pryd i wneud cais

Amserlen Cyflwyno Ceisiadau Derbyn i Ysgolion - Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Rheoledig					
Darpariaeth	Ystod Dyddiad Geni	Dechrau Ysgol	Dyddiad Cau Cais	Dyddiad Hysbysebu	Dyddiadau cau Apeliadau
<b>Addysg Feithrin 3 blwydd oed (Rhan-Amser)</b>	1 Medi 2021 tan 31 Awst 2022	Ionawr, Ebrill, Medi 2025	31 Gorffennaf 2024	Hydref 2024	Dim hawl i apelio
<b>Addysg 4 blwydd oed 4-11 (Llawn Amser)</b>	1 Medi 2020 tan 31 Awst 2021	Medi 2024 Ionawr neu Ebrill 2025	31 Ionawr 2024	16 Ebrill 2024 neu'r diwrnod gwaith nesaf	30 Mai 2024
<b>Ysgol Uwchradd (symud o Gynradd i'r Uwchradd)</b>	1 Medi 2012 tan 31 Awst 2013	Medi 2024	20 Rhagfyr 2023	1 Mawrth 2024 neu'r diwrnod gwaith nesaf	12 Ebrill 2024

### Ceisiadau Cynnar

Sylwch na ellir defnyddio ceisiadau cynnar yn faen prawf ar gyfer rhoi blaenoriaeth wrth ddyrannu llefydd. Mae'r holl geisiadau sy'n dod i law hyd at y dyddiad cau yn cael eu trin yn yr un modd.

### Ceisiadau Hwyr

Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried nes bod y ceisiadau sydd wedi dod i law cyn y dyddiad cau wedi cael lleoedd. Mae ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau yn llai tebygol o gael lle yn yr ysgol dewis cyntaf y gwnaeth y rhieni gais amdani.

### 3. Pa Oed Fydd Plant yn Dechrau'r Ysgol?

Y Blynyddoedd Cynnar - Darpariaeth i blant 3 oed

#### Beth yw'r Blynyddoedd Cynnar?

Mae Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn ddarpariaeth anstatudol sydd ar gael i blant 3 oed a bydd yn rhaid gwneud cais am le mewn ysgol h.y. ar gyfer categorïau (i) â (ii) isod, i'r Awdurdod Derbyn erbyn y dyddiad cau - Gweler yr Amserlen ar gyfer Cyflwyno Cais.

#### Ble mae addysg ran amser i'w chael?

Mae hawl gan bob plentyn 3 blwydd oed gael lleoliad am ddim am 10 awr yn wythnos mewn sefydliad cofrestredig trwy'r Grŵp Cyfle Cynnar o'r tymor yn dilyn ei drydydd pen-blwydd. Mae'r Awdurdod yn caniatáu i ddarparwyr nas cynhelir ddefnyddio adeiladau ysgolion lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.

Mae sawl math o ddarpariaeth:

- Ysgol Feithrin - Ysgol Feithrin Rhydaman yw'r unig ysgol feithrin yn y Sir.
- Dosbarthiadau Meithrin/Blynyddoedd Cynnar mewn Ysgolion Babanod neu Gynradd (Ysgolion 3-11 yn unig).
- Darpariaeth gan y sector nas cynhelir sy'n bartneriaid yn y Grŵp Hawl Bore-Oes, megis Blynyddoedd Cynnar Cymru, mudiadau fel Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru (WPPA), Mudiad Meithrin a darparwyr preifat. Gallwch ddod i wybod mwy o dan yr adran Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin yn y llyfryn hwn.

#### Pryd y gall plentyn ddechrau addysg ran-amser?

Fel rheol, derbynnir plant i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar mewn ysgolion lle mae'r ddarpariaeth honno ar gael yn rhan-amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd.

3ydd Pen-blwydd y Plentyn	Tymor Derbyn	Nid oes gan rieni hawl i apelio os na chynhigir lle i'w plentyn mewn lleoliad blynyddoedd cynnar o'u dewis.
1 Medi – 31 Rhagfyr	Tymor y Gwanwyn	
1 Ionawr – 31 Mawrth	Tymor yr Haf	
1 Ebrill – 31 Awst	Tymor yr Hydref	

Ni fydd gan blentyn y cynigir lle rhan-amser iddo/iddi mewn ysgol, hawl awtomatig i barhau i dderbyn addysg amser llawn. Mae'n rhaid cyflwyno cais ffurfiol i'r Awdurdod Derbyn cywir - gweler yr amserlen derbyn.

Os bydd mwy o geisiadau na llefydd ar gael, yna bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ceisiadau yn unol â'i meini prawf gôr-alw a nodir yn y ddogfen hon.

#### Addysg Llawn Amser - Plant 4 a 5 oed

Lle nad oes darpariaeth blynnyddoedd cynnar mewn lleoliad a gynhelir, wedi i gais gael ei gymeradwyo, mae plant yn cael eu derbyn yn llawn amser ar yr adegau canlynol:-

4ydd Pen-blwydd y Plentyn	Tymor Derbyn	Dylid cyflwyno ceisiadau i'r Awdurdod Derbyn erbyn y dyddiad cau - gweler yr amserlen cyflwyno ceisiadau derbyn. Gall rhieni ohirio dyddiad derbyn plentyn i'r ysgol tan ddechrau'r tymor sy'n dilyn pumed pen-blwydd y plentyn.
1 Medi – 31 Rhagfyr	Tymor yr Hydref	
1 Ionawr – 31 Mawrth	Tymor y Gwanwyn	
1 Ebrill – 31 Awst	Tymor yr Haf	

Yn ôl y gyfraith rhaid i rieni drefnu bod eu plant yn cael addysg llawn amser ar ddechrau'r tymhorau canlynol:-

5ed Pen-blwydd y Plentyn	Tymor Derbyn	Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yn cael eu hystyried nes bod y ceisiadau sydd wedi dod i law cyn y dyddiad cau wedi cael llefydd.
1 Medi – 31 Rhagfyr	Tymor y Gwanwyn	
1 Ionawr – 31 Mawrth	Tymor yr Haf	
1 Ebrill – 31 Awst	Tymor yr Hydref	

## 4. Derbyn plant i Ysgolion Uwchradd gan gynnwys y Chweched Dosbarth

### Ffeithiau Allweddol

- Ni fydd disgyblion yn trosglwyddo'n awtomatig i'r ysgol uwchradd o'r ysgol gynradd
- Mae'n rhaid, yn ôl y gyfraith, i chi gyflwyno cais i'r Awdurdod Derbyn am le mewn ysgol.
- Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais yw 20 Rhagfyr, 2023.
- Cyfeiriad y cartref yw'r hyn y rhoddir ystyriaeth iddo wrth dderbyn i Ysgol uwchradd ac nid yr ysgol gynradd a fynychwyd.
- Nid yw'n bosibl i unrhyw unigolyn na chorff roi sicrwydd ymlaen llaw y bydd lle ar gael i blentyn mewn ysgol. Dylid diystyru sylwadau neu addewidion o'r fath.
- Bydd angen ichi aros hyd nes y cewch lythyr neu e-bost gan yr Awdurdod Derbyn yn rhoi gwybod ichi os yw eich cais wedi cael ei gymeradwyo neu ei wrthod.
- Ni chaiff plentyn ddechrau yn yr ysgol uwchradd hyd nes bod y rhiant/gwarcheidwad wedi cadarnhau gyda'r Awdurdod Derbyn ei bod yn derbyn y cynnig o le.
- Darllenwch y Polisi Cludiant i'r Ysgol cyn gwneud eich dewis terfynol o ysgol.

Mae'n rhaid i blant ysgolion cynradd ddechrau'r ysgol uwchradd yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 11 oed.

Mae'n ofynnol i riant/gwarcheidwad gwblhau cais ar-lein ar gyfer y disgyblion hyn erbyn y **dyddiad cau penodedig fel y nodir yn yr Amserlen Trefniadau Derbyn**.

Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau penodedig yn cael eu hystyried nes bod y ceisiadau a ddaeth i law cyn y dyddiad cau wedi cael eu dyfarnu. Caiff y rhain eu hystyried fel **Ceisiadau Hwyr** fel y nodir yn y ddogfen hon.

Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd ar gael, yna bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu ceisiadau yn unol â'i feini prawf gôr-alw a nodir yn y ddogfen hon.

**Nid yw'r ysgol gynradd y mae'r disgybl yn ei mynychu yn fater sy'n cael ei ystyried wrth ddyrannu lleoedd.**

**Rhaid llenwi ffurflenni cais ar-lein erbyn y dyddiad cau penodedig.**

Os na fydd y ffurflen wedi cael ei chyflwyno erbyn y dyddiad cau, mae'r siawns o gael lle yn y dewis ysgol yn llai, felly hefyd y posibilrwydd o gael cludiant i'r ysgol am ddim. Ein bwriad yw anfon llythyrau penderfyniad mewn perthynas â'r ceisiadau hyn a gyflwynwyd erbyn y dyddiad cau erbyn y dyddiad cynnig a nodir yn yr Amserlen Trefniadau Derbyn.

## **Y DYDDIAD CAU AR GYFER GWNEUD CAIS AM LE YN YSGOL UWCHRADADRADD YW 20 RHAGFYR 2023**

Fel rhan o'r broses o wneud cais, bydd rhieni plant yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd yn derbyn pecyn gwybodaeth oddi wrth yr Awdurdod. Mae'n bwysig eich bod yn llenwi'r ffurflen ar-lein erbyn y dyddiad cau gan mai'r ceisiadau hyn fydd yn cael yr ystyriaeth gyntaf. Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried nes bod y ceisiadau a ddaeth i law cyn y dyddiad cau wedi cael eu dyfarnu. Er nad oes unrhyw sicrwydd y rhoddir lle mewn ysgol, mae'r meini prawf derbyn yn rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch dynodedig yr Ysgol uwchradd. Felly nid yw'r ysgol gynradd y mae'r disgybl yn ei mynychu yn fater sy'n cael ei ystyried.

Dilynwch y canllawiau a ddarparwyd, cwblhewch y ffurflen ar-lein yn unol â hynny a darllenwch y rhan o'r llyfryn hwn sy'n ymwneud â dewis y rhieni a chluant i'r ysgol er mwyn sicrhau eich bod yn deall eich dyletswydd o dan yr amgylchiadau hyn.

Nid oes trefniadau trosglwyddo awtomatig na hawl awtomatig i symud o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd.

Mae'n rhaid i ffurflenni gael eu cwblhau a'u cyflwyno erbyn 20 Rhagfyr 2023. Os na chaiff y ffurflen ei chyflwyno erbyn y dyddiad cau, yna bydd llai o gyfle i gael lle yn yr ysgol o'ch dewis. Ein bwriad yw cyhoeddi llythyrau penderfyniad ynghylch y ceisiadau hyn erbyn 1 Mawrth, 2024, neu'r diwrnod gwaith nesaf. Dylai rhieni sy'n dymuno i'w plentyn gael ei derbyn i ysgol uwchradd ar adeg sy'n wahanol i amser arferol derbyn disgyblion blwyddyn 7 (trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd) gysylltu a thrafod y mater yn y lle cyntaf â Phennaeth yr ysgol a fydd hefyd yn gallu rhoi cyngor ar wneud cais am le. Gellir gofyn hefyd am gyngor gan y staff Derbyn Disgyblion i Ysgolion yn yr Adran Addysg a Phlant.

### **Derbyn i'r Chweched Dosbarth**

Dylid trafod trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i Chweched Dosbarth Ysgolion Cymunedol â'r ysgol unigol cyn gwneud cais am le.

## 5. Dewis Ysgol - Dalgylchoedd

### Ffeithiau Allweddol

- Mae pob ysgol yn gwasanaethu dalgylch dynodedig.
- Os yw'r disgybl yn byw yn nalgylch dynodedig ysgol, mae gwell siawns y bydd y cais am le yn yr ysgol honno yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd cael lle.
- Mae gan ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol, yn amodol ar y meini prawf ynghylch oed a phellter teithio, well siawns o gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol - gweler y polisi cludiant.
- Lle bydd rhieni'n dewis ysgol nad yw'n ysgol agosaf neu'n ysgol y dalgylch, eu cyfrifoldeb nhw fydd cludo'r plentyn i'r ysgol ac yn ôl.
- Gall rhieni fynegi eu bod yn dewis ysgol nad yw'n ysgol ddynodedig y dalgylch. Os dilynir y gweithdrefnau cywir ac os nad yw nifer y disgyblion yn fwy na'r nifer y caniateir i'r ysgol ei derbyn, bydd lle yn cael ei roi.
- Pan fydd disgybl yn symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, bydd ystyriaeth ynghylch cymhwysedd i gael ei dderbyn i'r ysgol honno ac i dderbyn cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn seiliedig ar y cyfeiriad cartref ac nid yr ysgol gynradd a fynychwyd.

### Ysgol Leol/Dalgylch

Mae'r Awdurdod wedi dynodi ardal ddaearyddol benodedig y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu sy'n cael ei galw'n ddalgylch yr ysgol. Mae manylion dalgylch ysgol ar gael yn yr ysgol, ar wefan yr Awdurdod Sir neu oddi wrth yr Awdurdod Derbyn perthnasol.

Er nad yw byw yn nalgylch ysgol yn rhoi sicrwydd y derbynnir disgybl i'r ysgol mae'n ffactor pwysig gan y bydd yn golygu y bydd cais yn cael blaenoriaeth dros geisiadau gan unigolion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch. Mae'n bwysig hefyd am ei fod yn un o'r meini prawf allweddol wrth asesu a yw disgybl yn gymwys i gael cymorth o ran cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Ceir manylion y polisi ynghylch cludiant o'r cartref i'r ysgol yn y ddogfen hon. Cyn gwneud cais am le mewn ysgol mae'r Awdurdod yn eich cyngori'n gryf i gysylltu a thrafod materion gyda'ch ysgol leol ac os yn bosib mynd i'w gweld fel eich bod yn gwybod am y cyfleusterau a'r cyfleoedd allant eu cynnig.

### Dewisiadau Rhieni

Fel y nodwyd, mae'r Awdurdod yn awgrymu mai'r pwynt cyswllt cyntaf wrth ddewis ysgol fyddai'r ysgol dalgylch leol.

Er bod y rhan fwyaf o rieni yn anfon eu plentyn i'r ysgol dalgylch leol, mae gan rieni hawl i ddatgan blaenoriaeth i ysgolion gwahanol. Os ydych yn dymuno gwneud hynny argymhellir eich bod yn cysylltu â'r ysgol rydych yn meddwl

amdani cyn gwneud dewis terfynol.

Os ydych yn dewis ysgol nad yw'n ysgol dalgylch leol ichi nac yr ysgol agosach at eich cartref, dylech gofio fod rhai materion ymarferol y mae angen ichi eu hystyried yn llawn cyn gwneud penderfyniad.

Yn gyntaf, os nad yw plentyn yn mynychu ysgol y dalgylch na'r ysgol agosaf at gyfeiriad y cartref a bod y penderfyniad hwn yn seiliedig ar ddewis y rhieni, yna mae'r cyfrifoldeb yn llwyr ar y rhieni / gwarcheidwad r i gludo'r disgybl i'r ysgol ac oddi yno ac i dalu cost y cludiant hwnnw.

Mae rhieni'n dweud fod hynny'n gallu bod yn broblem arbennig os oes ganddynt frawd neu chwaer iau nad yw'n cael ei dderbyn i'r un ysgol. Doeth felly yw ystyried a chynllunio ar gyfer y posibilrwydd hwn cyn gwneud cais am le mewn ysgol.

Mae'r ail fater yn ymwneud â'r adeg pan mae disgyblion yn trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r sector uwchradd. Mae cael lle mewn ysgolion uwchradd yn seiliedig ar a ydy eich cyfeiriad cartref o fewn dalgylch yr ysgol uwchradd. Nid yw'n seiliedig ar ba ysgol gynradd yr aethpwyd iddi. Felly, pan mae disgybl wedi bod i ysgol gynradd nad yw'n ysgol dalgylch benodedig leol iddynt mae mwy o debygrwydd na fyddant yn gallu cael eu derbyn i'r un ysgol uwchradd â'u cyfoedion a'u cyddisgyblion.

Ni fydd y materion hyn yn berthnasol i lawer, ond gan eu bod wedi creu anawsterau i rieni yn y gorffennol argymhellir eich bod yn eu hystyried ac yn cynllunio ar eu cyfer cyn gwneud eich dewis terfynol o ran ysgol gynradd.

Bydd yr Awdurdod Derbyn a'r llywodraethwyr ysgol yn cydymffurfio'n gyfreithlon ag unrhyw fynegiant o flaenoriaeth i ysgol benodol. Fel gyda phob cais bydd blaenoriaeth i ysgol benodol yn gorfod cael ei hystyried a'i hasesu yn rhan o'r broses dderbyn i sicrhau nad yw'r Awdurdod yn mynd heibio'r terfyn ar gyfer derbyn disgyblion i'r ysgol honno ar gyfer y grŵp blwyddyn penodol.

Y term a ddefnyddir yn y ddogfen hon wrth gyfeirio at y nifer sy'n cyfyngu faint o ddisgyblion ellir eu derbyn i grŵp blwyddyn penodol mewn ysgol yw'r Nifer Derbyn neu ND. Nodir y nifer derbyn (ND) ar gyfer pob ysgol yn y rhestr o ysgolion sy'n rhan o'r llyfryn hwn.

## **Dewisiadau Rhieni – Disgyblion a Waharddwyd Ddwywaith**

Os yw disgybl wedi cael ei wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu ragor yn barod, er y gall rhiant ddatgan blaenoriaeth i ysgol y maen nhw'n dymuno i'w plentyn gael eu haddysgu ynddi, nid oes raid i'r Awdurdod Derbyn gydymffurfio â'r dewis hwnnw am gyfnod o ddwy flynedd o ddyddiad y gwaharddiad diweddaraf.

Nid yw hynny'n berthnasol i fyfyrwyr sydd â datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), plant o dan oed ysgol gorfodol, plant a gafodd le ysgol yn ôl, neu a fyddai wedi cael lle yn ôl pe bai wedi bod yn ymarferol gwneud hynny, neu blant sy'n derbyn gofal pan wneir y cais am le gan y rhiant corfforaethol.

## **Diwallu Anghenion Addysgol Ychwanegol/Arbennig**

Mae gan rai plant anghenion addysgol ychwanegol neu arbennig a/neu anableded sy'n golygu fod angen gwneud darpariaeth ychwanegol ar eu cyfer fel y gallant ddysgu'n effeithiol. Mewn amgylchiadau o'r fath trowch at adran Anghenion Addysgol Ychwanegol y llyfryn hwn.

## **Addysg yn y Cartref**

Gall rhieni ddewis hefyd addysgu eu plant gartref. Yr enw ar hyn yw Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae'r penderfyniad i addysgu gartref yn fater y dylid meddwl yn ofalus amdano, gan ei fod yn golygu ymrwymiad, amser a chost sylweddol.

Os ydych yn ystyried y dewis hwn awgrymir y dylech gysylltu â'r awdurdod lleol a gofyn am arweiniad gan y Swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref drwy ffonio

01554 742369 neu e-bostiwrch: [EHEnquiries@sirgar.gov.uk](mailto:EHEnquiries@sirgar.gov.uk)

## **Mathau o Ysgolion**

Mae pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei dosbarthu'n ysgolion cydaddysgol yn yr ystyr eu bod yn darparu ar gyfer bechgyn a merched, ac oni nodir yn wahanol maent yn ysgolion dyddiol ac nid yn ysgolion preswyl.

Oni nodir yn wahanol, mae ysgolion uwchradd yn cael eu dosbarthu'n ysgolion cyfun.

Yn unol â Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 gosodir terfyn o 30 o ddisgyblion mewn dosbarth sy'n cael ei addysgu gan un athro cymwysedig yn achos dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2



## 6. Sut mae gwneud cais

### Ffeithiau Allweddol

Wedi i'r rhiant/gwarcheidwad /rhiant corfforaethol benderfynu i ba ysgol y maent am anfon eu plentyn/plant mae'n rhaid iddynt gyflwyno cais i'r Awdurdod Derbyn priodol.

Gofynnir i'r rhiant/gofalwyr restru'r dewis o ysgol yn ôl y dewis 1af, yr 2il ddewis a'r 3ydd dewis.

Ar gyfer Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir gellir gwneud hyn:

- Yn uniongyrchol ar-lein gan ddefnyddio gwefan yr Awdurdod Lleol sef [www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru); neu
- Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor; neu
- Trwy gysylltu â'r ysgol.

Ni all unrhyw Ysgol Gynradd Gymunedol nac Ysgol Gynradd Wirfoddol a Rheoledig awdurdodi derbyn disgybl, gallant gynorthwyo gyda'r ffurflen gais drwy apwyntiad yn unig.

### Ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr

- Cyflwyno cais yn uniongyrchol i'r ysgol
- Cyflwyno cais ar-lein trwy wefan Awdurdod Sir Caerfyrddin.

### Cwblhau'r Ffurflen Gais

#### Cyfrifoldeb Rhiant/Gwarcheidwad

Pan nodir cyfrifoldeb rhiant/gwarcheidwad yna mae'n ofynnol eich bod wedi ymgynghori â'r holl bartïon â chyfrifoldeb rhiant ac wedi cael eu cymeradwyaeth cyn gwneud cais.

#### Dewis Rhieni - Dewisiadau Ysgol

Bydd y rhieni/gwarcheidwad yn gallu gwneud cais ar-lein am le mewn uchafswm o dair ysgol ar y ffurflen gais. Argymhellir bod rhieni/gwarcheidwad yn gwneud cais am 3 ysgol i gynyddu'r siawns o sicrhau lle mewn ysgol a ddewisir.

Bydd rhaid i'r rhieni/gwarcheidwad sy'n dewis gwneud cais am 2 neu 3 ysgol eu rhestru yn ôl blaenoriaeth (h.y. 1af, 2il a 3ydd dewis)

Yn y man cyntaf, bydd pob cais yn cael yr un ystyriaeth, ond os bydd lle'n cael ei

gynnig yn yr ysgol sy'n ddewis 1af (neu'n unig ddewis), ni fydd lleoedd yn cael eu cynnig yn yr ysgol sy'n 2il ddewis neu'n 3ydd dewis.

Os caiff y dewis 1af ei wrthod, bydd eich 2il ddewis yn cael ei drin fel petai'n ddewis 1af. Bydd y broses hon yn parhau hyd nes y cynigir lle neu hyd nes y bydd y 3 dewis wedi'u hystyried.

Dylai rhieni/gwarcheidwad anfon e-bost at [derbyniadau@sirgar.gov.uk](mailto:derbyniadau@sirgar.gov.uk) i drafod lle mewn ysgol arall os yw pob dewis wedi bod yn aflwyddiannus.

Os bydd nifer o geisiadau yn dod i law, cânt eu prosesu'n awtomatig yn y drefn y maent wedi dod i law. Os ydych yn cyflwyno cais newydd, y cais a ddaeth i law gyntaf fydd eich dewis 1af, 2il ddewis a 3ydd dewis o hyd, a bydd eich ail gais yn cael ei ychwanegu fel eich 4ydd, 5ed a 6ed dewis

### **Newid neu ganslo dewisiadau ysgol**

Rhaid i rhieni/gwarcheidwad anfon e-bost at [derbyniadau@sirgar.gov.uk](mailto:derbyniadau@sirgar.gov.uk) i newid trefn eu dewisiadau ysgol. Efallai y gofynnir i rhieni gyflwyno cais newydd. Bydd newidiadau a wneir ar ôl y dyddiadau cau a gyhoeddwyd yn cael eu hystyried fel ceisiadau hwyr.

### **Dewis iaith - Ysgolion Dwyieithog a Dwy Ffrwd**

Os gall ysgol gynnig mwy nag un ffrwd iaith (er enghraifft ysgol dwy ffrwd), gall rhieni fynegi dewis ar gyfer ffrwd benodol ar y ffurflen gais. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod derbyn yn cynnig lle mewn ffrwd iaith benodol, dim ond lle yn y grŵp blwyddyn perthnasol yn yr ysgol honno. Dylid trafod unrhyw ddewisiadau iaith gyda'r ysgol ar ôl i le gael ei gynnig.

### **Cyfeiriad Cartref**

Bernir mai cyfeiriad cartref disgybl yw eiddo preswyl sy'n unig breswylfa neu'n brif breswylfa'r plentyn, preswylfa neu adeilad preswyl heb gynnwys unrhyw dir cysylltiedig. Mae'r dalgylch yn seiliedig ar leoliad y tŷ y mae'r disgybl yn byw ynddo ac nid ar unrhyw dir o amgylch y tŷ hwnnw a naill ai yn:

- Eiddo i riant/rhieni'r plentyn neu i berson a chanddo gyfrifoldeb riant cyfreithiol penodedig am y plentyn; neu
- Wedi'i brydlesu neu ei rentu gan riant/rhieni y plentyn neu gan y person sydd â chyfrifoldeb riant yn unol â chytundeb rhent ysgrifenedig, ac wedi'i lofnodi gan y landlord a'r tenant, am gyfnod o chwe mis neu ragor.

## **Prawf o'ch Cyfeiriad**

Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i ofyn am brawf o gyfeiriad ar yr adeg y cynigir lle i'r plentyn. Er mwyn i'r cais gael ei ystyried fel rhan o'r cylch derbyn arferol, bydd angen ichi ddarparu prawf eich bod yn byw yn y cyfeiriad a nodwyd ar y ffurflen gais ar y dyddiad cau.

Bydd yr Awdurdod yn ystyried unrhyw ddwy ddogfen o blith y canlynol yn gymorth ar gyfer penderfynu eich bod yn byw mewn cyfeiriad penodol:

- Bil y Dreth Gyngor neu Fudd-dal Tai gwreiddiol neu lythyr hysbysu nad yw'n fwy na 12 mis oed;
- Bil cyfleustodau gwreiddiol (nad yw'n fwy na 3 mis oed);
- Llythyr dyfarnu gwreiddiol ynghylch Budd-dal Plant neu Gredyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith (nad yw'r dyddiad arno'n fwy na thri mis yn ôl, a'i fod yn nodi enw/enwau y plentyn/plant);
- Cytundeb tenantiaeth/prydles wedi'i lofnodi a'i ddyddio, sy'n para am o leiaf chwe mis ond sydd â mis neu ragor ar ôl ar y cytundeb;
- Cyfriflen carden gredyd neu gyfrif banc wreiddiol sy'n dangos y cyfeiriad (heb fod yn fwy na dau fis oed)
- Cadarnhad ysgrifenedig gan Fanc neu Gymdeithas Adeiladu'r ymgeisydd yn cadarnhau manylion y newid cyfeiriad ac ar ba ddyddiad y digwyddodd y newid;
- Trwydded yrru llun adnabod gyfredol ddilys

Fel rhan o'r broses dderbyn mae angen ichi ddarparu prawf o'ch cyfeiriad mewn cysylltiad â'ch cais. Bydd yr Awdurdod yn ceisio gwirio'r wybodaeth a ddarparwyd ac mae'n cadw'r hawl i fynnu bod ymgeisydd yn darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol i gadarnhau'r breswyliaeth neu i gymryd camau rhesymol i bennu a yw cais yn dwyllodrus ai peidio.

Os caiff lle ei gynnig mewn ysgol yn seiliedig ar gyfeiriad y canfyddir wedyn ei fod yn wahanol i gyfeiriad arferol a pharhaol y plentyn, yna mae'n bosibl y caiff y lle ei dynnu'n ôl. Os bydd rhiant neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant cyfreithiol dros y plentyn yn rhoi datganiad anwir, gan wybod a chan fwriadu hynny, a fyddai'n effeithio ar lwyddiant eu cais, yna mae'n bosibl y caiff y lle ei dynnu'n ôl. Os na ddarperir prawf preswyliaeth yna ni fydd yr Awdurdod yn gallu prosesu'r cais ac mae'n bosibl y caiff y lle ei ddyfarnu i ddisgybl arall.

### **Symud Tŷ / Newid Cyfeiriad**

Os ydych yn bwriadu symud tŷ ac yn cyflwyno cais am le mewn ysgol ar sail y cyfeiriad newydd, bydd yr Awdurdod yn cymryd camau i wirio'r trefniadau. Bydd yr Awdurdod hefyd yn derbyn llythyr cyfreithiwr yn datgan y cyfnewidiwyd contractau ac yn nodi'r dyddiad cwblhau neu gytundeb tenantiaeth wedi'i lofnodi a'i ddyddio fel y nodwyd yn (iv) uchod. Os na allwch ddarparu prawf o'ch cyfeiriad erbyn y dyddiad a roddir ar gyfer cael ceisiadau yna bydd eich cais yn cael ei seilio ar eich cyfeiriad cyfredol.

### **Rhannu Cyfrifoldeb**

Lle mae y cyfrifoldeb am y plentyn yn cael ei rannu, a bod y plentyn yn byw gyda'r ddau riant, neu bersonau a chanddynt gyfrifoldeb i rhiant a cyfreithiol penodedig am y plentyn, am ran o'r wythnos, y brif breswylfa fydd y cyfeiriad y mae'r plentyn yn byw ynddo am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol neu lle rhennir y breswylfaeth 50/50, y brif breswylfa fydd y cyfeiriad lle mae'r rhiant sy'n derbyn Budd-dal Plant yn byw. Mae'n bosibl y gofynnir i'r rhieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol a fydd yn ategu'r cyfeiriad a ddefnyddir pan gaiff lle ei gynnig

### **Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Arbennig (ADY/AAA)**

Rhaid i rieni nodi a oes gan ddisgybl unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol neu Arbennig ar y ffurflen gais pan ofynnir iddynt wneud hynny. Bydd y wybodaeth hon yn helpu ysgolion i gynllunio ymlaen llaw i sicrhau bod darpariaeth ar waith ar gyfer disgyblion pe baent yn cael eu derbyn i'r ysgol. Gofynnir i'r adran ADY/AAA wirio'r ceisiadau hyn.

### **Plant Sipsiwn a Theithwyr**

Mae'n rhaid i'r Awdurdod, yn statudol, sicrhau bod pob plentyn oed ysgol gorfodol yn derbyn addysg sy'n briodol i'w hoedran, eu galluoedd ac unrhyw anghenion addysgol arbennig, ac yn hybu safonau uchel wrth ddarparu addysg a lles plant. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn berthnasol i bob plentyn boed yn breswylwyr parhaol yn yr ardal ai peidio. Bydd ceisiadau derbyn ar gyfer teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu trin gyda'r bwriad o roi'r plant hyn, mor gyflym ag y bo modd, yn yr ysgol agosaf a mwyaf addas sydd ar gael.

## 7. Dyfarnu Llefydd - Y Meini Prawf Gor-alw

Y meini prawf ynghylch gôr-alw o ran derbyn disgyblion i ysgolion cymunedol ac ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd gwirfoddol a reolir.

Os derbynnir mwy o geisiadau nag sydd o lefydd mewn ysgol benodol, neilltuir llefydd gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol a restrir yn nhrefn blaenoriaeth:

1. Plant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal.
2. Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol y bydd ganddynt frawd neu chwaer wedi'i gofrestru/chofrestru yno pan fydd y plentyn yn dechrau yn yr Ysgol honno.
3. Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol sydd heb fod ganddynt frawd na chwaer wedi'i gofrestru/chofrestru yno pan fydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol honno.
4. Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol AC sydd â brawd neu chwaer wedi'i gofrestru/chofrestru yno pan fydd y plentyn yn dechrau yn yr Ysgol honno.
5. Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch dynodedig yr ysgol ac na fydd ganddynt frawd na chwaer wedi'i gofrestru/chofrestru yno pan fydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol honno.

Dalier sylw: Pan fo Datganiad o Anghenion Addysgol neu Gynlluniau Datblygu Unigol yn enwi ysgol benodol mae'n rhaid datgan hynny'n glir ar y ffurflen gais. Ymdrinnir â'r ceisiadau hyn ar wahân, cyn troi at y meini prawf gor-alw.

### Ar gyfer ceisiadau am Le Amser Llawn mewn Ysgol Gynradd i blant 4 oed

Ni ellir defnyddio'r ddarpariaeth Feithrin neu flynyddoedd cynnar rhan-amser i blant 3 oed a ddyrannwyd yn faen prawf ar gyfer rhoi blaenoriaeth wrth ddyrannu lleoedd amser llawn mewn ysgol gynradd i blant 4 oed.

### Ar gyfer ceisiadau am le mewn Ysgol Uwchradd ym Mlwyddyn 7

Ni ellir defnyddio'r ysgol gynradd y mae disgybl yn ei mynychu yn faen prawf ar gyfer rhoi blaenoriaeth wrth ddyrannu lle mewn ysgol uwchradd.

### Nodiadau

Ym mhob un o'r categorïau uchod.

## **Y Meini Prawf o ran Pellter**

Defnyddir y pellter o'r cartref i'r ysgol yn faen prawf ar gyfer penderfynu ar flaenoriaeth, a rhoddir blaenoriaeth a lle yn yr ysgol i'r sawl sy'n byw agosaf at yr ysgol dros y sawl sy'n byw ymhellach i ffwrdd. Mesurir y pellter gan ddefnyddio Google Maps.

Mesurir y pellter o gyfeiriad y cartref i'r ysgol ar hyd y llwybr agosaf o fynedfa agosaf yr ysgol i'r pwynt mynediad agosaf i gyfeiriad y cartref o'r briffordd neu lwybr troed.

## **Brodyr a Chwiorydd**

Bydd plant yn cael eu hystyried yn frodyr neu'n chwiorydd os ydynt yn: Brawd neu chwaer llawn (plant sydd â dau riant yn gyffredin), hanner brawd neu chwaer (plant sydd ag un riant yn gyffredin), brawd neu chwaer a fabwysiadwyd neu a faethwyd, llysfrawd neu lyschwaer (plant sy'n perthyn oherwydd bod eu rhieni yn briod, yn cyd-fyw neu mewn partneriaeth sifil), ond ym mhob achos mae'n rhaid i'r plant fod yn byw yn yr un uned deuluol yn yr un cyfeiriad am y rhan fwyaf o'r wythnos. Lle rhennir y breswyliaeth 50/50, y cyfeiriad lle mae'r riant/gofalwr sy'n derbyn Budd-dal Plant yn byw sy'n cael ei ddefnyddio i brosesu'r cais ac mae'n rhaid i'r brawd neu'r chwaer fod wedi cofrestru ac yn mynychu'r ysgol pan fydd eich plentyn ar fin dechrau yn yr ysgol. Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth os oes angen. Bydd methu â darparu dystiolaeth pan ofynnir yn arwain at eich cais yn cael ei raddio fel un lle nad oes brawd neu chwaer yn yr ysgol.

## **Plant Genedigaeth Luosog**

O dan unrhyw amgylchiadau pan fydd un lle ar gael a phan fydd y plant cymwys nesaf yn efeilliaid/tripledi bydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn y ddau / y ddwy / yr holl blant

## **Plant Aelodau Lluoedd Arfog y DU**

Bydd plant Aelodau Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig yn cael eu trin fel pe baent o fewn y dalgylch os yw eu ffurflen gais yn cynnwys llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn nodi dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd o fewn y dalgylch.

## **Y Nifer Derbyn – Terfyn ar nifer y disgyblion a dderbynnir i Ysgol**

Mae gan bob ysgol Nifer Derbyn (ND) sy'n nodi a chyfyngu ar faint o ddisgyblion y gellir eu derbyn ym mhob grŵp blwyddyn yn yr ysgol. Rhoddir y ND ar gyfer pob ysgol yn y rhestr o ysgolion yn y llyfryn hwn.

Pennwyd y ND ar gyfer pob ysgol trwy ddefnyddio'r fformiwla maint a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol

(Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru – Cylchlythyr 021/2011) ac mae'n ymwneud ag arwynebedd ffisegol adeiladau'r ysgol, y math o gyfleusterau sydd yn yr ysgol, ystod oed a nifer y grwpiau blwyddyn yn yr ysgol.

Gan fod y ND yn seiliedig ar allu'r ysgol i ddarparu lle a chyfleusterau addas ar gyfer disgyblion ni ddylid mynd heibio'r terfyn hwnnw.

Mae'r ND yn berthnasol i'r grŵp oed y derbynir y disgyblion iddo yn yr ysgol, ac mae'n gosod terfyn ar nifer y disgyblion y gellir eu derbyn. Yn y flwyddyn dderbyn arferol rhaid i'r Awdurdod Derbyn dderbyn disgyblion hyd nes y cyrhaeddir y ND. Os yw nifer y ceisiadau a dderbynir am lefydd mewn ysgol yn fwy na'r ND bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniodd yn unol â'r meini prawf ar gyfer gor-alw a nodir yn y ddogfen hon. Mewn amgylchiadau o'r fath mae'n bosib na fydd rhieni yn llwyddo i gael lle i'w plentyn yn eu dewis ysgol. Rhaid i lywodraethwyr ysgol a'r Awdurdod Lleol gadw golwg gyson ar y ND

## **Trefniadau Derbyn Eraill**

### **Sir Gâr ddwyieithog - Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

Gall rhieni fynegi eu bod yn ffafrio ysgol benodol o ran iaith. Fodd bynnag, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i ddatblygu ei system addysg ddwyieithog ymhellach yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032. Credwn yn gryf fod bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn fantais i'n plant a'n pobl ifanc. Mae ystyriaethau wedi'u gwneud ar gyfer disgyblion sy'n symud i'r sir heb fawr ddim Cymraeg neu ddim Cymraeg o gwbl. Gall disgyblion o bob oed gael cymorth ar gyfer darpariaeth Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn [www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)

### **Ysgolion Dau Safle**

Pan gyflwynir cais ar gyfer derbyn i ysgol sy'n gweithredu ar fwy nag un safle, bydd yr Awdurdod yn cymeradwyo derbyn i'r ysgol ac nid i safle penodol. Yr ysgol fydd yn penderfynu pa safle fydd y plentyn yn ei fynychu.

### **Plant Sipsiwn a Theithwyr**

Bydd ceisiadau derbyn ar gyfer teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu trin gyda'r bwriad o roi'r plant hyn, mor gyflym ag y bo modd, yn yr ysgol agosaf a mwyaf addas sydd ar gael.

## **8. Symud/Newid Ysgol y tu allan i'r drefniadau derbyn arferol. (Symud yn ystod y flwyddyn/canol blwyddyn)**

Pan fydd ceisiadau yn cael eu gwneud y tu allan i'r trefniadau derbyn arferol fel y gwelir yn rhan 8, caiff ceisiadau eu prosesu yn unol â'r trefniadau canlynol.

Mae newid ysgol yn gofyn am ystyriaeth ddifrifol a dylid trafod y mater yn llawn gyda phennaeth ysgol bresennol y plentyn yn y lle cyntaf. Mae angen i'r rhiant/gwarcheidwad ystyried a yw symud ysgol er lles pennaf y plentyn. Bydd yr Adran Addysg a Phlant hefyd yn darparu cyngor os oes angen.

Os bydd rhiant/gwarcheidwad yn dymuno symud plentyn o un ysgol i'r llall, rhaid llenwi'r ffurflen gais ar-lein. [www.carmarthenshire.gov.wales/schooladmissions](http://www.carmarthenshire.gov.wales/schooladmissions)

Nid yw bob amser yn bosibl cynnig lle i ddisgyblion mewn grŵp blwyddyn mewn ysgol y tu allan i'r cylch derbyn arferol, gan y gallai'r holl leoedd sydd ar gael fod eisoes wedi'u dyrannu i ddisgyblion yn gynharach (h.y. ceisiadau cynharach i symud ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd/blynyddoedd academaidd blaenorol, neu yn ystod y cylch derbyn arferol).

Nid yw symud i ddalgyrch ysgol yn gwarantu lle mewn ysgol. Nid yw cael brawd neu chwaer sy'n cael cynnig lle mewn ysgol neu ei dderbyn i ysgol yn gwarantu lle mewn ysgol i frodyr a chwiorydd eraill.

Os oes nifer o blant o un aelwyd yn gwneud cais am symud i ysgol, efallai na fydd yn bosibl cynnig lle mewn ysgol i'r holl blant yn yr un ysgol os yw rhai grwpiau blwyddyn eisoes dros ei nifer derbyn.

Bydd ceisiadau sy'n dod i law cyn y Flwyddyn Academaidd newydd y mae'r cais ar ei chyfer yn cael eu prosesu yn Nhymor yr Haf cyn i'r Flwyddyn Academaidd ddechrau. Cedwir pob lle ar agor am un tymor yn unig. Dylid asesu ceisiadau sy'n dod i law yn ystod y Flwyddyn Academaidd a rhoi gwybod i rieni/gwarcheidwad am benderfyniad cyn pen 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr (pa un bynnag yw'r cynharaf) a yw'r cais wedi bod yn llwyddiannus ai peidio. Caiff pob cais ei brosesu yn unol â Chôd Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Bydd angen gwirio ceisiadau ar gyfer plant a nodwyd naill ai fel Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a Oedd yn Arfer Derbyn Gofal, plant â Datganiad, neu Gynllun Datblygu Unigol cyn eu prosesu.

Byddai lle mewn ysgol fel arfer yn cael ei gadw am un tymor ysgol cyn cael ei dynnu'n ôl a'i ailddyrrannu ar yr amod bod y dyddiad dechrau yn yr un flwyddyn



academaidd y gwnaed cais amdani.

Caiff ceisiadau eu hystyried yn unol â'r gweithdrefnau a'r polisïau derbyn a nodir yn y ddogfen hon. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd ar gael, yna bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu ceisiadau yn unol â'i feini prawf gor-alw a nodir yn y ddogfen hon.

Os na fydd rhieni'n llwyddo i gael lle i'w plentyn yn eu dewis ysgol, fe'u hysbysir drwy e-bost o'r rheswm/rhesymau dros hyn. Bydd yr e-bost penderfyniad hefyd yn nodi eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw ac yn esbonio'r broses apelio gan gynnwys y dyddiad cau i apelio.

Ceir rhagor o wybodaeth am y broses apelio yn y ddogfen hon

### **Rhestrau aros ar gyfer ceisiadau y tu allan i'r trefniadau derbyn arfero**

Pan na fu modd derbyn disgybl i ysgol o ddewis oherwydd gor-alw, rhaid i'r rhieni roi gwybod i'r Awdurdod trwy e-bostio [derbyniadau@sirgar.gov.uk](mailto:derbyniadau@sirgar.gov.uk) os ydynt am i enw eu plentyn gael ei roi ar y rhestr aros. Bydd y rhestr aros yn cael ei chadw tan 30 Medi ar ôl y dyddiad hysbysiad o benderfyniad fel y nodir yn yr amserlen trefniadau derbyn yn y llyfryn hwn.

### **Grwpiau Blwyddyn Eraill**

Bydd ceisiadau am lefydd i ddisgyblion mewn grwpiau blwyddyn sy'n wahanol i'r grŵp blwyddyn arferol yn seiliedig ar ddyddiad geni disgybl yn cael eu hystyried fesul un, a lle y mae hynny'n berthnasol yn ôl y meini prawf ar gyfer gor-alw a esbonnir yn y llyfryn hwn. Mae proses benodol ar gyfer ystyried y ceisiadau hyn a fydd yn cynnwys asesiad gan yr Awdurdod Lleol o amgylchiadau unigol pob achos. Nid yw hon yn broses awtomatig.

## **9. Hysbysu Cynnig Lle Ysgol**

Bydd rhieni'n cael eu hysbysu trwy e-bost yn cadarnhau, neu fel arall, fod lle ar gael yn yr ysgol ac yn cynnig iddynt y cyfle i dderbyn y lle yn unol â'r trefniadau derbyn a nodir yn yr Amserlen Trefniadau Derbyn yn y ddogfen hon.

Rhaid i riant dderbyn yr e-bost cynnig i sicrhau lle yn yr ysgol. Os na fydd rhiant yn ymateb erbyn y dyddiad ar yr e-bost, **mae'n bosibl y bydd y lle yn cael ei dynnu'n ôl ac yn cael ei gynnig i ddisgybl arall.**

**Bydd ceisiadau i dderbyn y tu allan i'r trefniadau derbyn arferol yn cael eu hysbysu fel arfer o fewn 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr, pa un bynnag sydd gyntaf ar ôl derbyn y cais.**

### **Rhestr Aros**

Lle na fu'n bosibl derbyn disgybl i ysgol oherwydd gor-alw, rhaid i rieni roi gwybod i'r Awdurdod mewn neges e-bost os ydynt yn dymuno rhoi'r plentyn ar y rhestr aros a fydd yn cael ei chadw hyd 30 Medi 2023. Os daw lleoedd gwag ar gael cânt eu dyfarnu'n unol â'r meini prawf gor-alw a amlinellwyd yn hytrach nag ers pryd y bu'r cais ar y rhestr aros. Dylid nodi bod yn rhaid i geisiadau newydd gael eu cyflwyno ar ôl y dyddiad cau sydd ar 30 Medi.

Dim ond os bydd nifer y lleoedd sydd wedi'u dyrannu/ar y gofrestr yn y grŵp blwyddyn perthnasol yn gostwng islaw'r nifer derbyn ar gyfer yr ysgol y bydd disgyblion ar y rhestr aros yn cael eu hystyried. Os bydd lleoedd gwag ar gael, bydd yr holl geisiadau newydd a hwyr sydd wedi dod i law bryd hynny yn cael eu hystyried ar gyfer y lleoedd gwag ynghyd â'r rhai sydd ar y rhestr aros. Bydd unrhyw lleoedd sydd ar gael yn cael eu dyrannu yn unol â'r meini prawf gor-alw. Bydd ceisiadau ar y rhestr aros ar gyfer y trefniadau derbyn arferol yn cael eu hadolygu'n fisol tan 30 Medi ar ôl y dyddiad hysbysiad o benderfyniad fel y nodir yn yr Amserlen Trefniadau Derbyn yn y ddogfen hon.

Gall rhieni apelio yn erbyn penderfyniad tra byddant ar y rhestr aros ar gyfer nifer o ysgolion.

### **Tynnu Cynnig o Le yn Ôl**

Tynnir cynnig o le mewn ysgol yn ôl os:

- darganfyddir yn ddiweddarach y cafodd cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol ei gyflwyno (e.e. hawlio trwy dwyll fod ymgeisydd yn preswyllo yn nalgylch yr ysgol); neu
- os nad yw'r lle a gynigir wedi cael ei dderbyn erbyn y dyddiadau a nodir yn yr e-bost/llythyr. Yna gallai'r Awdurdod dynnu'r cynnig yn ôl a rhoi'r lle i blentyn arall.
- Mae lle mewn ysgol arall wedi cael ei gadarnhau gan riant/warcheidwad.
- Os nad yw disgybl wedi dechrau mewn ysgol ar ddiwedd y tymor ysgol sef y tymor yr oedd i fod i ddechrau yn unol â pholisi'r cyngor.

## **10. Apeliadau yn ymwneud â derbyn disgyblion i Ysgolion Cymunedol/Ysgolion Gwirfoddol a Rheoledig Cynradd neu Uwchradd**

Os na fydd rhieni'n llwyddo i gael lle i'w plentyn yn eu dewis ysgol, fe'u hysbysir drwy e-bost o'r rheswm/rhesymau dros hyn a hefyd am eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad a'r broses o wneud hynny.

Ar gyfer Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Rheoledig bydd yr Awdurdod yn trefnu bod Panel Apêl Annibynnol yn ystyried yr apeliadau. Cynhelir y broses apeliadau yn unol â Chôd Apelau Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

### **Nid oes hawl i apelio yn achos gwrthod derbyn i ddarpariaeth Blynnyddoedd Cynnar, lleoedd rhan-amser i blant 3 oed.**

Bydd apeliadau'n cael eu cynnal yn unigol neu fel grŵp os oes mwy nag un apêl ar gyfer yr un ysgol, ac eithrio pan fydd y corff neu'r cyrff sy'n gyfrifol am wneud trefniadau apelio yn rhoi cyfarwyddyd fel arall. Bydd rhieni'n cael cyfle i gyflwyno eu hachos yn breifat naill ai'n uniongyrchol neu gyda chymorth cynrychiolydd a ddewisir ganddynt.

Bydd y Clerc yn hysbysu pob parti o benderfyniad y Panel, a fydd yn rhwymo'r Awdurdod, y Corff Llywodraethu a'r rhieni.

Rhaid i apêl gan rieni/Gwacheidwaid yn erbyn gwrthod lle mewn Ysgol Gymunedol neu Wirfoddol a Rheoledig gael ei chyflwyno drwy'r e-ffurflen apeliadau [https://sirgar-self.achieveservice.com/cy/service/School\\_Admissions\\_appeals](https://sirgar-self.achieveservice.com/cy/service/School_Admissions_appeals)

Os bydd angen tystiolaeth feddygol bydd angen ichi ddarparu copiâu o adroddiadau sy'n ymwneud â'r diagnosis gan yr Ymgynghorydd a/neu'r Arbenigwr perthnasol.

Bydd gan Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr eu trefniadau eu hunain ar gyfer cynnal apeliadau annibynnol. Yn ogystal â'r uchod, ni fydd unrhyw beth yn y broses hon yn atal rhiant â phlentyn sydd â datganiad o anghenion addysgol y gwrthodwyd lle i'r plentyn hwnnw yn yr ysgol a enwir yn y datganiad, rhag cael adolygiad o benderfyniad o'r fath gan Dribiwnlys AAA.

**Nifer o Apeliadau ar gyfer mynediad arferol i Ysgolion Sir Gaerfyrddin ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022/2023**

Enw'r Ysgol	Nifer yr Apeliadau ar gyfer 2022/23	Apeliadau Llwyddiannus ar gyfer 2022/23
<b>Gynradd (M2)</b>		
Bryn Teg	1	1
Brynaman	9	6
Cae'r Felin	1	0
Carreg Hirfaen	2	2
Cefneithin	7	3
Ffairfach	1	1
Gorslas	5	4
Johnstown	2	2
Llangunnor	2	1
Nantgaredig	2	2
Parcyrhun	3	3
Pontyberem	8	5
Rhydaman	3	2
Richmond Park	6	3
Saron	7	4
Y Dderwen	1	1
<b>Uwchradd (Blwyddyn 7)</b>		
Bro Dinefwr	17	12
Bryngwyn	54	14
Coedcae	10	9
Dyffryn Aman	4	3
Dyffryn Taf	12	7
<b>Cyfanswm</b>	<b>157</b>	<b>85</b>

## 11. Derbyn i Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr

Dylai rhieni sy'n dymuno anfon eu plentyn i Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr gysylltu â Phennaeth yr ysgol honno. Nodir y manylion cyswllt ar wahân yn y rhestr ysgolion yn y llyfryn hwn. Corff Llywodraethu'r ysgol sy'n delio â'r trefniadau derbyn ac apeliadau ar gyfer Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr.

### Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr Model

Mae ein polisi derbyn fel a ganlyn:-

Nifer Derbyn yr ysgol yw 60 disgybl. Golyga hynny mai nifer y disgyblion y gellir eu derbyn i unrhyw grŵp blwyddyn yn yr ysgol yw 60 disgybl. Os oes mwy o geisiadau nag sydd o lefydd defnyddir y meini prawf canlynol er mwyn blaenoriaethu ceisiadau:-

1. Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant oedd yn Arfer Derbyn Gofal.
2. Plant sy'n byw ym mhlwyfi hanesyddol Dewi Sant a San Pedr, Caerfyrddin.
3. Plant sydd â brodyr neu chwiorydd sydd eisoes yn mynychu'r ysgol.
4. Plant sydd wedi cael bedydd Cristnogol ac sy'n byw'r tu allan i blwyf Dewi Sant a San Pedr, os oes lle ar gael. Gellid gofyn hefyd am lythyr o gefnogaeth oddi wrth yr offeiriad plwyf lleol.

Bydd plant sydd â datganiadau o Anghenion Addysgol sy'n enwi'r ysgol yn cael llefydd cyn defnyddio'r meini prawf gor-alw

Sylwer - ym mhob un o'r categorïau uchod rhoddir blaenoriaeth i:

1. Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n preswyllo dros dro yn lloches Cymorth i Fenywod Caerfyrddin.
2. Plant aelodau o'r lluoedd arfog sy'n cael eu derbyn y tu allan i'r cylch derbyn arferol.
3. Bydd plant sydd ag efaill neu frawd neu chwaer arall o enedigaeth luosog yn cael eu derbyn yn ddisgyblion na chânt eu heithrio, fel y disgybl(ion) olaf i gael lle cyn cyrraedd y nifer derbyn. Bydd y disgyblion a eithrir bellach yn cynnal y statws hwn ar hyd eu cyfnod mewn dosbarth babanod neu tan fod dosbarthiadau yn cael eu haildrefnu neu fod niferoedd yn cyrraedd lefel sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynghylch maint dosbarthiadau babanod.
4. Bydd y pellter o'r cartref i'r ysgol, fel y mesurwyd gan y radiws byrraf o'r adeilad ysgol fwyaf canolog, yn cael ei ddefnyddio yn faen prawf ar gyfer penderfynu ar flaenoriaeth, a rhoddir blaenoriaeth a lle yn yr ysgol i'r sawl sy'n byw agosaf at yr ysgol dros y sawl sy'n byw ymhellach i ffwrdd.

Os nad ydym yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, y rheswm am hynny yw y byddai gwneud hynny yn amharu ar addysg plant eraill drwy ganiatáu i niferoedd y plant yn yr ysgol gynyddu gormod.

### **Apeliadau Derbyn i Ysgolion**

Bydd y Corff Llywodraethu'n trefnu bod apêl gan riant yn erbyn penderfyniad i wrthod derbyn disgybl yn cael ei chlywed gan Bwyllgor Apêl Annibynnol yn unol â'r rheoliadau. Bydd penderfyniad y Pwyllgor Apêl Annibynnol yn rhwymo'r Corff Llywodraethu a'r rhiant.

### **Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Penboyr**

Y Meini Prawf o Ran Derbyn i Ysgol Penboyr

Os bydd nifer y plant sy'n ceisio lle yn yr ysgol yn fwy na nifer y llefydd sydd ar gael, cynigir lle ar sail blaenoriaeth yn y drefn ganlynol:

- 1.Plant sy'n derbyn gofal sy'n gymunwyr y ffydd Anglicanaidd. Plant a oedd yn arfer derbyn gofal, sy'n gymunwyr y ffydd Anglicanaidd ac sydd bellach wedi cael eu mabwysiadu.
- 2.Plant sy'n derbyn gofal. Plant a oedd yn derbyn gofal ond sydd bellach wedi cael eu mabwysiadu.
- 3.Plant sydd â brodyr neu chwiorydd, p'un a yw'r rhein y'n frodyr neu chwiorydd maeth, mabwysiedig neu sy'n byw yn barhaol yn yr un cyfeiriad, sydd yn mynychu'r ysgol ar y dyddiad derbyn ar faethedig
- 4.Plant o deuluoedd sy'n byw y tu allan i'r ardal ond sy'n gymunwyr rheolaidd mewn eglwys Anglicanaidd. Plant o deuluoedd sy'n perthyn i enwadau Cristnogol eraill ac sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ac y mae eu rhieni am iddynt dderbyn addysg mewn Ysgol Eglwysig Anglicanaidd.
- 5.Plant o deuluoedd sy'n perthyn i enwadau Cristnogol eraill ac sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ac y mae eu rhieni am iddynt dderbyn addysg mewn Ysgol Eglwysig Anglicanaidd.

Ym mhob achos, mae 'hawl i apelio' yn erbyn penderfyniad i wrthod cais am dderbyn plentyn i'r ysgol ac mae'n rhaid cyflwyno'r apêl i Gadeirydd y Corff Llywodraethu.

## Apeliadau Derbyn i Ysgolion

Bydd y Corff Llywodraethu'n trefnu bod apêl gan riant yn erbyn penderfyniad i wrthod derbyn disgybl yn cael ei chlywed gan Bwyllgor Apêl Annibynnol yn unol â'r rheoliadau. Bydd penderfyniad y Pwyllgor Apêl Annibynnol yn rhwymo'r Corff Llywodraethu a'r rhiant.

## Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr Pentip

Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethu yw derbyn plant i'r ysgol. Hyn a hyn o ddisgyblion y caiff ysgol eu derbyn mewn unrhyw grŵp blwyddyn. Y Nifer Derbyn presennol yw 27 mewn unrhyw grŵp blwyddyn.

Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru yw Pentip yn bennaf, sy'n gwasanaethu Deoniaeth Lliedi ac ardal Llanelli fel y nodir ar fap yr ALL. Mae'r Llywodraethwyr yn croesawu ceisiadau gan rieni disgyblion o enwadau eraill sy'n cefnogi ethos a thraddodiadau Cristnogol yr Ysgol.

Mae'r corff llywodraethu'n ystyried ceisiadau am dderbyn i'r ysgol yn ystod Tymor yr Hydref cyn y flwyddyn academiaidd y bydd y disgybl yn dechrau yn yr ysgol. Dylid gwneud ceisiadau i'r Swyddog Gweinyddol. Rhif Ffôn: 01554 758602, ebost: admin@pentip.ysgolccc.cymru. Pe bai gôr-alw ar gyfer llefydd, mae'r meini prawf ar gyfer derbyn fel a ganlyn

1. Disgyblion sydd â naill ai frawd neu chwaer eisoes yn yr ysgol.
2. Plant sy'n byw o fewn y dalgylch dynodedig ar gyfer yr ysgol fel y dangosir ar fap yr ALL. Mae map yn dangos y dalgylch ar gael yn yr ysgol.
3. Plant yr Eglwys yng Nghymru a fedyddiwyd yn Neoniaeth Bro Lliedi.
4. Plant rhieni enwadau eraill sy'n dymuno rhannu a chefnogi ethos thraddodiadau Cristnogol yr Ysgol

Sylwch - ym mhob un o'r categorïau uchod rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal.

Os gwrthodir cais am le, mae gan rieni'r hawl i apelio. Dylid anfon llythyr at Gadeirydd y Corff Llywodraethu yn apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â chynnig lle. Caiff hwn ei glywed gan banel apeliadau annibynnol. Bydd penderfyniad y panel yn rhwymo'r llywodraethwyr a'r apelyddion.

### Y Broses Ymgeisio

Gellir cael ffurflenni cais am fynediad i'r ysgol drwy ofyn amdanynt oddi wrth Swyddog Gweinyddol yr Ysgol a dylid eu dychwelyd i'r ysgol. Rhif ffôn: 01554 759178, e-bost: admin@stmarysllanelli.ysgolccc.cymru. Yna, caiff ceisiadau am fynediad i'r Ysgol eu hystyried gan y Pwyllgor Derbyn a Bugeilio bob tymor ar gyfer mynediad ddechrau'r tymor nesaf. Mae plant meithrin yn cael eu derbyn yn y tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd. Bydd ceisiadau hwyr, neu geisiadau a wneir ar ôl i'r Pwyllgor gyfarfod, yn cael eu trafod yn brydlon; fel arfer, byddant yn cael eu hystyried gan ddau aelod o'r Pwyllgor a enwebwyd at y diben hwnn gan y Pwyllgor i weithredu ar ei ran

### Y Meini Prawf Gor-alw

Mae Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn croesawu ceisiadau gan deuluoedd sy'n ceisio addysg Gristnogol i'w plant. Os bydd nifer yr ymgeiswyr yn fwy na nifer y llfeydd sydd ar gael, defnyddir y meini prawf gôr-alw canlynol:

1. Plant Catholig sydd wedi'u bedyddio 'sy'n derbyn gofal' ac 'a oedd yn arfer derbyn gofal' sydd yng ngofal awdurdod lleol (plant mewn gofal) neu sy'n cael llety ganddynt e.e. plant â rhieni maeth neu sydd â datganiad anghenion arbennig yn enwi'r ysgol, o fewn y plwyfi a wasanaethir gan yr ysgol.
2. 'Plant sy'n derbyn gofal' a 'Phlant a oedd yn arfer derbyn gofal' sydd yng ngofal yr awdurdod lleol (plant mewn gofal) neu sy'n cael llety ganddynt e.e. plant â rhieni maeth neu sydd â datganiad anghenion arbennig yn enwi'r ysgol, o fewn y plwyfi a wasanaethir gan yr ysgol.
3. Plant Catholig sydd wedi'u bedyddio o fewn y plwyfi a wasanaethir gan yr ysgol.
4. Plant Catholig eraill sydd wedi'u bedyddio
5. Plant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar yr adeg derbyn tebygol.
6. Plant o enwadau Cristnogol eraill.
7. Plant eraill sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar adeg eu derbyn.
8. Plant o grefyddau eraill y mae eu rhieni yn ceisio addysg Gatholig.
9. Plant eraill y mae eu rhieni yn ceisio addysg Gatholig ar gyfer eu plentyn.
10. Plant y mae'r AALI wedi gofyn yn benodol am le iddynt yn yr ysgol.

### Sylwch:

- Ym mhob un o'r categorïau uchod rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal.



- Ym mhob un o'r categorïau uchod, bydd y pellter o'r cartref i'r ysgol yn ffactor sydd penderfynu, gyda'r rheiny sy'n byw agosaf at yr ysgol yn cael y flaenoriaeth uchaf.

### **Apeliadau**

Os gwrthodir cais am le, mae gan rieni'r hawl i apelio. Dylid anfon llythyr at Gadeirydd y Corff Llywodraethu yn apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â chynnig lle. Caiff yr Apêl ei chlywed gan Banel Apêl Annibynnol; mae hwn yn annibynnol ar y Corff Llywodraethu a holl gynrychiolwyr eraill yr ysgol, a bydd ei benderfyniad yn rhwymo'r Corff Llywodraethu a'r apelyddion.

### **Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Caerfyrddin**

#### **Y Broses Ymgeisio**

Gellir cael ffurflenni cais am fynediad i'r ysgol, drwy ofyn amdanynt, oddi wrth Swyddog Gweinyddol yr Ysgol a dylid eu dychwelyd i'r ysgol. Rhif ffôn: 01267 234297, e-bost: admin@stmaryscarm.ysgolccc.cymru. Yna, mae ceisiadau am fynediad i'r ysgol yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Derbyn a Bugeilio bob tymor ar gyfer mynediad ddechrau'r tymor nesaf. Mae plant meithrin yn cael eu derbyn yn y tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd. Bydd ceisiadau hwyr, neu geisiadau a wneir ar ôl i'r Pwyllgor gyfarfod, yn cael eu trafod yn brydlon; fel arfer, byddant yn cael eu hystyried gan ddau aelod o'r Pwyllgor a enwebwyd at y diben hwnnw gan y Pwyllgor i weithredu ar ei ran.

#### **Y Meini Prawf Gor-alw**

Mae Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn croesawu ceisiadau gan deuluoedd sy'n ceisio addysg Gristnogol i'w plant. Os bydd nifer yr ymgeiswyr yn fwy na nifer y llefydd sydd ar gael, defnyddir y meini prawf gôr-alw canlynol:

1. Plant Catholig sydd wedi'u bedyddio.
2. Plant eraill nad ydynt yn Gatholig sydd wedi'u bedyddio.
3. Plant sy'n perthyn i gymunedau ffydd nad ydynt yn Gristnogol.
4. Plant sydd â brawd neu chwaer (h.y. brawd, chwaer, hanner brawd, hanner chwaer, llysfrawd, llyschwaer, brawd mabwysiadol neu chwaer fabwysiadol) wedi'u cofrestru yn yr ysgol pan fydd y plentyn yn cael ei (d)derbyn i'r ysgol.
5. Gall y Corff Llywodraethu roi ystyriaeth i geisiadau a wnaed gan rieni a al ddangos bod mynediad yn angenrheidiol er lles meddygol neu gymdeithasol eu plentyn. Bydd angen tystiolaeth ategol annibynnol.

Sylwch:

- Ym mhob un o'r categorïau uchod rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal.
- Ym mhob un o'r categorïau uchod, bydd y pellter o'r cartref i'r ysgol yn ffactor sy'n penderfynu, gyda'r rheiny sy'n byw agosaf at yr ysgol yn cael y flaenoriaeth uchaf

## Apeliadau

Os gwrthodir cais am le, mae gan rieni'r hawl i apelio. Dylid anfon llythyr at Gadeirydd y Corff Llywodraethu yn apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â chynnig lle. Caiff yr Apêl ei chlywed gan Banel Apêl Annibynnol; mae hwn yn annibynnol ar y Corff Llywodraethu a holl gynrychiolwyr eraill yr ysgol, a bydd ei benderfyniad yn rhwymo'r Corff Llywodraethu a'r apelyddion.

## Ysgol Gyfun Gatholig Sant Ioan Llwyd

### Y Meini Prawf Gor-alw o ran Derbyniadau

Mae Polisi Derbyn a Gor-alw Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Gatholig Sant Ioan Llwyd fel a ganlyn

Nid yw hyn yn effeithio ar hawl rhieni nad ydynt o'r un ffydd â'r ysgol hon neu nad ydynt o gefndir ffydd i wneud cais am le yma a chael eu hystyried ar ei gyfer. Yn wir, mae'r Ysgol yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan bob teulu. 105 yw Nifer Derbyn yr Ysgol ar hyn o bryd.

Os yw nifer y ceisiadau'n fwy na'r nifer derbyn, bydd y llywodraethwyr yn rhoi blaenoriaeth i'r ceisiadau'n unol â'r meini prawf a restrir, ar yr amod bod y llywodraethwyr yn gwybod am y ceisiadau hynny cyn bod penderfyniadau ynghylch derbyniadau'n cael eu gwneud. Ym mhob categori bydd y llywodraethwyr yn rhoi blaenoriaeth i'r sawl sydd â brawd neu chwaer yn mynychu Ysgol Gyfun Gatholig Sant Ioan Llwyd ac yna i'r plant sy'n byw agosaf i'r ysgol yn ôl y pellter byrraf.

1. Plant Catholig sydd wedi'u bedyddio ac sydd yng ngofal awdurdod lleol (plant mewn gofal) neu sy'n cael llety drwy awdurdod lleol (e.e. plant â rhieni maeth) (Adran 22 o Ddeddf Plant 1989) a phlant sydd â datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd wedi enwi Ysgol Sant Ioan Llwyd.
2. Plant nad ydynt yn Gatholig sydd yng ngofal awdurdod lleol (plant sy'n derbyn gofal) neu sy'n cael llety drwy awdurdod lleol (e.e. plant â rhieni maeth) (Adran 22 o Ddeddf Plant 1989) a phlant sydd â datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd wedi enwi Ysgol Sant Ioan Llwyd.
3. Plant Catholig sydd wedi'u bedyddio ac sydd yn mynychu ysgol fwydo Gatholig ddynodedig ar hyn o bryd.

4. Plant Catholig sydd wedi'u bedyddio ac sy'n byw ar hyn o bryd yn ardal plwyf ysgol fwydo Gatholig ddynodedig nad ydynt yn mynychu'r ysgol fwydo Gatholig ddynodedig ar hyn o bryd.
5. Plant yr Eglwys yng Nghymru sydd wedi'u bedyddio.
6. Plant eraill sydd heb eu bedyddio sydd ar hyn o bryd yn mynychu ysgol fwydo Gatholig ddynodedig.
7. Plant eraill sydd heb eu bedyddio sydd ar hyn o bryd yn mynychu ysgol fwydo Gatholig ddynodedig.
8. Plant eraill nad ydynt yn Gatholigion o ysgolion cynradd eraill.

### **Y Broses Ymgeisio**

Gofynnir i rieni wneud cais yn uniongyrchol i'r ysgol gan ddefnyddio ffurflen gais yr ysgol. Mae'r rhain ar gael o swyddfa'r ysgol a hefyd yn cael eu dosbarthu yn y Noson Agored ar gyfer disgyblion blwyddyn 6 a'u rhieni ym mis Hydref. Yn ogystal, mae'n rhaid i rieni wneud cais ar-lein drwy dudalen Derbyniadau Ysgolion Sir Gaerfyrddin a dewis Ysgol Sant Ioan Llwyd fel eu dewis cyntaf. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau blwyddyn 6 ar gyfer 2024-2025 yw 20 Rhagfyr 2023. Rhoddir gwybod i rieni os yw eu plentyn wedi cael cynnig lle yn dilyn cyfarfod yr Is-bwyllgor Derbyniadau I Lywodraethwyr yn nhyr y Gwanwyn. Bydd cynigion o lefydd mewn ysgolion yn cael eu hanfon drwy e-bost at rieni ar 1 Mawrth 2024.

### **Apeliadau**

Os gwrthodir cais am le, mae gan rieni'r hawl i apelio. Dylid anfon llythyr at Gadeirydd y Corff Llywodraethu (d/o yr ysgol), yn apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â chynnig lle. Caiff yr apêl ei hystyried gan Banel Apêl Annibynnol, na all gynnwys unrhyw un o Lywodraethwyr na chynrychiolwyr eraill yr ysgol.

# Adran B – Gwybodaeth am Addysg a Dysgu 2024/25

## 1. Tymhorau Ysgol a Dyddiadau Gwyliau ar gyfer 2024/25

Nodwch y gallai manylion y calendr hwn newid o ganlyniad i benderfyniadau polisi'r llywodraeth. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn cyfrifoldeb dros unrhyw golledion yn sgîl gorfod newid trefniadau gwyliau oherwydd newidiadau o'r fath.

Dechrau'r Tymor		Gwyliau Hanner Tymor		Diwedd y Tymor	
Tymor	Tymor yn Dechrau	Yn dechrau	Yn gorffen	Diwedd y Tymor	Dyddiau
Hydref 2024	Dydd Mawrth 3, Medi	Dydd Llun 28, Hydref	Dydd Gwener, 1 Tachwedd	Dydd Gwener, 20, Rhagfyr	<b>74</b>
Gwanwyn 2025	Dydd Llun, 6 Ionawr	Dydd Llun 24, Chwefror	Dydd Gwener, 28, Chwefror	Dydd Gwener, 11 Ebrill	<b>65</b>
Haf 2025	Dydd Llun, 28 Ebrill	Dydd Llun 26, Mai	Dydd Gwener 30, Mai	Dydd Llun 21, Gorffennaf	<b>55</b>
<b>Dyddiau Dynodedig HMS – Dydd Llun 2 Medi 2024</b>  <b>Ar gyfer diwrnodau HMS penodol yr ysgol, cysylltwch â'r ysgol berthnasol. Fel arfer, mae gan ysgolion 4 diwrnod HMS arall yn ystod y flwyddyn academiaidd (gan gynnwys y dyddiau dynodedig).</b>  <b>Dydd Gwener y Groglith – 18 Ebrill 2025</b> <b>Calan Mai – 5 Mai 2025</b>					<b>1</b>
<b>Cyfanswm</b>					<b>195</b>

## 2. Cwricwlwm yr Ysgol

Yn ystod addysg gynradd a thair blynedd gyntaf addysg uwchradd mae pob ysgol yn cynnig rhaglen eang a chytbwys sy'n cynnwys holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Amcan y cwricwlwm a gynigir ymhob ysgol yw galluogi'r holl ddisgyblion i gyrraedd eu llawn botensial. Yn y bedwaredd a'r bumed flwyddyn yn yr ysgol uwchradd mae'r disgyblion yn parhau i astudio pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ond gyda chyfle ar gyfer opsiynau sy'n cydweddu â doniau a diddordebau arbennig y disgyblion

Ymgynghorir yn llawn â rhieni ynglŷn â'r opsiynau hyn ac mae cynghorwr gyrfaoedd yn gysylltiedig â phob ysgol i gynnig arweiniad. Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys pynciau craidd: Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Y pynciau sylfaen eraill yw technoleg, hanes, daearyddiaeth, iaith dramor fodern (mewn ysgolion uwchradd yn unig), cerddoriaeth, celf, addysg gorfforol a Chymraeg, lle nad yw'n bwnc craidd.

Mae'n rhaid i bob ysgol gynnig addysg grefyddol. Mae gan rieni yr hawl i eithrio eu plant o'r ddarpariaeth addysg grefyddol a chydaddoliad mewn ysgol. Dylid gwneud ceisiadau o'r fath i bennaeth yr ysgol.

### **Egwyddorion Cyffredinol**

Mae Sir Gaerfyrddin yn credu yng ngwerth addysgol bod yn hyddysg mewn dwy iaith neu fwy ac mae'n gryf o blaid cael polisi dwyieithog yn ei hysgolion. Nod tymor hir y polisi hwn yw dysgu plant i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd. Dylai'r ddarpariaeth sicrhau bod plant yn gallu cyfathrebu'n hyderus yn y ddwy iaith a'u bod yn ymwybodol o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru. Mae polisi iaith yr ysgolion uwchradd yn barhad o'r polisi cynradd ac mae'n adleisio statws y Gymraeg yn y cymunedau lle mae'r ysgolion. Mae'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn nodi bod amrywiaeth o ddulliau o ddysgu'r Gymraeg a dysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion y sir ar hyn o bryd. Wedi dweud hynny, disgwylir i bob ysgol ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ddwyieithog ac amlieithog fel bod disgyblion yn cael eu hintegreiddio'n llawn yn eu cymunedau dwyieithog ar ddiwedd y broses addysgol statudol.

### **Cwynion Ynghylch y Cwricwlwm Ysgol a Materion Cysylltiedig**

Mae gan bob ysgol unigol bolisi ar gyfer ymdrin â chwynion. Yn ddefnyddiol, bydd unrhyw bryderon a allai fod gan rieni yn cael eu datrys yn anffurfiol drwy drafodaeth uniongyrchol â'r ysgol. Fodd bynnag, pe bai rhieni yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol, mae gan yr ysgol weithdrefnau sefydledig y mae'n rhaid iddynt sicrhau eu bod ar gael.

Mewn perthynas ag Ysgolion Gwirfoddol Rheoledig a'r rhai a Gynorthwyr, gwahoddir cynrychiolydd o'r Corff Esgobaethol perthnasol i fod yn bresennol, yn unol â'r gweithdrefnau sefydledig, pryd y caiff cwyn ei hystyried.

Os yw'r gŵyn yn ymwneud â materion crefyddol, yna dilynir y drefn uchod, ond byddai'r Pwyllgor Cwynion hefyd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Awdurdod Ymgynghorol Sefydlog ynghylch Addysg Grefyddol ac ar gyfer Ysgolion Cynradd Gwirfoddol a Rheoledig, gwahoddir Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol fel sylwedydd.

### Grwpiau Blwyddyn/Oedrannau Disgyblion

Cyfnod Allweddol	Disgrifiad o'r Grwpiau Blwyddyn		Oed y mwyafrif ar ddiwedd y flwyddyn
<b>Blynyddoedd Cynnar</b>	M1	Meithrin 3 Oed (Rhan-Amser)	4
	M2	Meithrin 4 Oed (Llawn-Amser)	
<b>CA1</b>	Derbyn	Babanod	5
	BI1	Babanod	6
	BI2	Babanod	7
<b>CA2</b>	BI3	Iau	8
	BI4	Iau	9
	BI5	Iau	10
	BI6	Iau	11
<b>CA3</b>	BI7	Uwchradd	12
	BI8	Uwchradd	13
	BI9	Uwchradd	14
<b>CA4</b>	BI10	Uwchradd	15
	BI11	Uwchradd	16
<b>CA5 (Chweched Dosbarth)</b>	BI12	Chweched Isaf	17
	BI13	Chweched Uchaf	18

### 3. Dysgu'r Gymraeg a'r Saesneg yn Ysgolion Sir Gaerfyrddin

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru (Ionawr 2022), mae'n rhaid i bob ysgol ac Awdurdod Lleol yng Nghymru hysbysu ym mha iaith y maent yn bwriadu addysgu. O CYBLD Ionawr 2024 bydd y categorïau ysgol newydd yn cael eu cyflwyno yn genedlaethol.

Mae'r ddarpariaeth ieithyddol yn cyplysu'n agos gyda Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Sir; gan gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050; gwreiddio cynigion i ddysgu Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd a Chyfathrebu y Cwricwlwm newydd i Gymru yn ogystal â chydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

O ganlyniad, mae disgwyliad clir y bydd pob ysgol yn datblygu darpariaeth a fydd yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y cwricwlwm ffurfiol a'r cwricwlwm allgyrsiol, er mwyn cyflawni Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 10 mlynedd y Sir, sef cynllun cydnabyddedig, rhwng 2022 a 2032.

**Bydd angen i'r Awdurdod Lleol a'r Ysgol gytuno ar y categori mwyaf addas yn seiliedig ar y ddarpariaeth gyfredol o'r rhestr newydd ganlynol:**

## **YSGOL CYNRADD**

### **Categori 1 - Ysgol Cyfrwng Saesneg**

Saesneg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol yn ogystal â chyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr. Cydnabyddir y bydd creu ethos Cymraeg o fewn yr ysgol yn cefnogi ac yn annog agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg. Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu darllen, ysgrifennu, siarad a gwranddo yn Saesneg yn unol â'i oedran a'i allu, a bydd ganddo rywfaint o ddealltwriaeth o'r Gymraeg. Caiff y Gymraeg ei haddysgu a'i hasesu fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu. Bydd o leiaf 15% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

### **Categori 2 - Ysgol Dwy iaith**

Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer cyfathrebu mewnol yn ogystal â chyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr. Mae dealltwriaeth glir y bydd cynnal ethos Cymraeg o fewn yr ysgol yn cefnogi agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg. Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwranddo yn Saesneg ac yn Gymraeg yn unol â'i oedran a'i allu. Bydd sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu cryfhau'n bellach drwy gynyddu cyfleoedd dysgu (cwricwlaidd ac allgyrsiol) drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng dysgu, defnyddir y Saesneg yn achlysurol i atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr. Gyda'r cymorth cywir, gallai dysgwyr symud ymlaen i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Categori 3. Bydd o leiaf 50% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg. Gellid cyflawni hyn mewn gwahanol ffordd yn dibynnu ar gyd-destun yr ysgol. Gallai fod drwy ddefnyddio trochi cyfrwng Cymraeg llawn hyd at 7 oed gyda dewis yn cael ei gynnig yn y grwpiau blwyddyn eraill, neu, bod 50% o weithgareddau'r ysgol yn Gymraeg drwyddi draw.

### **Categori 3 - Ysgol Cyfrwng Cymraeg**

Cymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol. Mae'n cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Mewn lleoliad trochi mae pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn yn y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar. O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

### **Ysgol Uwchradd**

#### **Categori 1 - Ysgol Cyfrwng Saesneg**

Saesneg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol yn ogystal â chyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr. Cydnabyddir y bydd creu ethos Cymraeg o fewn yr ysgol yn cefnogi ac yn annog agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg. Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn cael ei addysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, a bydd yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn Saesneg yn unol â'i oedran a'i allu. Caiff y Gymraeg ei haddysgu a'i hasesu fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu. Bydd o leiaf 15% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

#### **Categori 2 - Ysgol Dwy iaith**

Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer cyfathrebu mewnol yn ogystal â chyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr. Mae dealltwriaeth glir y bydd cynnal ethos Cymraeg o fewn yr ysgol yn cefnogi agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg. Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn Saesneg ac yn Gymraeg yn unol â'i oedran a'i allu. Bydd sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu cryfhau'n bellach drwy gynyddu cyfleoedd dysgu (cwricwlaidd ac allgyrsiol) drwy gyfrwng y Gymraeg. Gan ddibynnu ar faint o amser a neilltuir i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, byddai dysgwyr yn gallu defnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn ystod o wahanol Feysydd Dysgu a Phrofiad. Bydd o leiaf 40% o ddysgwyr yn ymgymryd ag o leiaf 40% o weithgareddau ysgol (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

#### **Categori 3 - Ysgol Cyfrwng Cymraeg**

Y Gymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol. Bydd yr ysgol yn cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae yna ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Bydd eich plentyn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn Gymraeg a Saesneg yn unol â'i oedran a'i allu.



**Categori 3 – Ysgol Cyfrwng Cymraeg** yn cynnig ystod eang o'u Meysydd Dysgu a Phrofiad drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd o leiaf 60% o ddysgwyr sy'n ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwrwclaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg. Bydd disgwyl i bob ysgol Categori 3 barhau i adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ardal wrth weithio tuag at gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros amser.

**Ysgol Categori 3P – Ysgol Cyfrwng Cymraeg Penodedig** – yn cyflwyno pob Maes Dysgu a Phrofiad (Maes) drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd 100% o ddysgwyr yn ymgymryd ag o leiaf 90% o'u gweithgareddau ysgol (cwrwclaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg.

### **Is-gategoriâu Trosiannol 2T a 3T**

Categoriâu pontio yw'r rhain rhwng dau brif gategori iaith.

Mae'r trefniadau pontio hyn yn galluogi ysgolion i gynllunio sut y byddant yn cynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros amser. Cynyddu'r ddarpariaeth o'r Gymraeg, a hynny er mwyn symud i'r categori nesaf, yw nod yr is-gategoriâu trosiannol. Felly, mae 2T yn pontio categori 1 a 2, gyda'r nod o ddod yn gategori 2 dros amser ac mae 3T yn pontio ysgol categori 2 a 3 gyda nod o ddod yn Ysgol categori 3 dros amser.

## **4. Arholiadau Cyhoeddus**

Bydd yr ALL yn cydymffurfio â gofynion y gyfraith. Mae disgyblion, os yw'r pennaeth yn ystyried eu bod yn addas, yn cael eu cofrestru ar gyfer arholiadau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) a grwpiau arholi eraill.

Mae amserlenni arholiadau yn cael eu trefnu gan CBAC a grwpiau arholi eraill a hysbysir penaeithiad ynghylch yr arholiadau hyn a'r canlyniadau yn uniongyrchol gan y grwpiau hynny.

## **5. Gwahardd Disgyblion**

Y Pennaeth (neu athro/athrawes c/gyfrifol arall yn gweithredu yn enw'r Pennaeth) yw'r unig un â'r awdurdod i wahardd disgybl o'r ysgol am resymau disgyblu. Mae'n ddyletswydd ar y pennaeth i roi gwybod i'r rhieni a'r plant (neu i'r disgybl os yw'n 11 oed neu'n hŷn) a yw'r gwaharddiad yn un parhaol neu'n waharddiad am gyfnod penodedig, a'r rhesymau dros hynny. Gwahoddir rhieni i gyflwyno sylwadau ynghylch y gwaharddiad i banel gwahardd disgyblion corff llywodraethu'r ysgol. Gellir cael copi o'r ddogfen gyfarwyddyd ar wahardd disgyblion o'r Adran Addysg a Phlant. Gellir cael cyngor pellach gan Swyddog EOTAS drwy ffonio: 01267 246456.

## **6. Taliadau Gweithgareddau Ysgolion**

Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai addysg a ddarperir gan ysgol a gynhelir fod yn rhad ac am ddim pan fo'n digwydd yn llwyr neu'n bennaf yn ystod oriau ysgol. Mewn rhai amgylchiadau gall ysgolion godi taliadau neu ofyn am gyfraniadau gwirfoddol a thynnir sylw rhieni at hyn cyn gwneud unrhyw ymrwymiad i weithgaredd neilltuol.

## **7. Dyddiad Gadael Ysgol**

Gall disgyblion adael yr ysgol ar y dydd Gwener olaf ym Mehefin yn ystod Blwyddyn 11 yn yr ysgol uwchradd os ydynt wedi cyrraedd 16 mlwydd oed.

## **8. Cyrff Llywodraethu Ysgolion**

Mae gan bob ysgol neu ffederasiwn ysgolion gorff llywodraethu sy'n cynnwys aelodau o'r gymuned leol, rhieni, athrawon, staff a chynrychiolwyr o'r Awdurdod Leol.

Hefyd mae gan Gyrff Llywodraethu Ysgolion Eglwysig (Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr ac Ysgolion Gwirfoddol a Rheoledig) gynrychiolaeth o'r awdurdod eglwysig.

Pan ddaw lleoedd gwag ar gyfer rhiant-lywodraethwyr, dosberthir gwybodaeth drwy'r sianeli cyfathrebu arferol, ac er mwyn bod yn gymwys i fod yn rhiant lywodraethwr, mae'n rhaid i unigolyn fod â phlentyn ar gofrestr yr ysgol y mae'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol amdani. Mae rhiant-lywodraethwr yn y swydd am gyfnod penodol o bedair blynedd (dwy flynedd ar gyfer Ysgol Feithrin Rhydaman) a gall rhiant lywodraethwr, os yw'n dewis, wasanaethu tymor llawn y swydd, hyd yn oed os nad yw ei blentyn yn ddisgybl yn yr ysgol honno mwyach. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Gyrff Llywodraethu gwrdd o leiaf unwaith y tymor.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch cyrff llywodraethu gan yr Uned Llywodraethu Ysgolion yn yr Adran Addysg a Phlant:  
01267 246448 / [governance@sirgar.gov.uk](mailto:governance@sirgar.gov.uk)

# Adran C – Gwasanaethau i Ddisgyblion

## 1. Diwallu Anghenion Addysgol Ychwanegol/Arbennig

Mae'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anabledd yng Nghymru wedi newid. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno system newydd fwy hyblyg ac ymatebol ar gyfer diwallu anghenion plant ag anghenion addysgol arbennig (AAA) neu anabledau ac mae'n ymdrechu i gyflwyno system addysg gwbl gynhwysol ar gyfer dysgwyr Cymru. Gan ddefnyddio'r system newydd bydd ysgolion yn sicrhau:

- bod anghenion yn cael eu nodi'n gynnar, eu diwallu'n gyflym a bod pob dysgwr yn cael ei gefnogi i gyrraedd ei botensial.
- bod gweithwyr proffesiynol yn fedrus ac yn hyderus o ran nodi anghenion a datblygu strategaethau i helpu dysgwyr i oresgyn eu rhwystrau i ddysgu.
- bod y dysgwyr yn derbyn dysgu wedi'i bersonoli a bod y dysgwr a'i rieni/gofalwyr, yn bartneriaid cyfartal yn ei ddysgu (Dull sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn).

O fis Medi 2021, bydd y system newydd yn cael ei chyflwyno'n raddol dros dair blynedd (2021 -2024).

Prif agweddau'r system newydd yw:

Bydd y term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn disodli'r termau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anawsterau ac Anabledau Dysgu (AAD). Bydd Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig (Cydlynwyr AAA) mewn ysgolion bellach yn cael eu galw'n Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY)

Bydd y Côt ADY gorfodol ar gyfer y system newydd yn cynnwys plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed. Mae hyn yn golygu y bydd gan golegau blynyddoedd cynnar ac addysg bellach ddyletswyddau o dan y Ddeddf, ond nid yw hyn yn cynnwys addysg uwch na phrentisiaethau.

Mae'r system raddedig o Weithredu gan y Blynyddoedd Cynnar/Ysgol, Gweithredu gan y Blynyddoedd Cynnar/Ysgol a Mwy a Datganiadau yn cael ei disodli. Bydd pob plentyn a pherson ifanc sydd ag angen dysgu ychwanegol (ADY) a nodwyd sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael Cynllun

Datblygu Unigol (CDU). Bydd y Cynllun Datblygu Unigol yn disodli'r holl gynlluniau unigol eraill. Bydd Cynlluniau Datblygu Unigol, y mae eu hangen ar blant o dan oed ysgol gorfodol h.y. yn y blynyddoedd cynnar, yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol.

Bydd pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i sicrhau y darperir darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg, os bydd angen.

### **1.1 Prawf Adnabod**

Mae gan rai plant anawsterau dysgu a/neu anabledd sy'n golygu fod angen darpariaeth ar eu cyfer fel y gallant ddysgu'n effeithiol.

Caiff hyd at 20% o blant a phobl ifanc ryw fath o anawsterau dysgu. Gall ysgolion gefnogi'r rhan fwyaf o anghenion y dysgwyr hyn a chytunir ar y ddarpariaeth gan gadw at fodel 'Proses Gwneud Penderfyniadau'. Mae'r model hwn yn sicrhau bod plant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys ym mhob cam o'r gwaith o gynllunio ac adolygu'r ddarpariaeth sydd ei hangen i gefnogi anghenion y dysgwyr.

Mae gan tua 1% o blant a phobl ifanc anghenion cymhleth a pharhaus sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol ddarparu darpariaeth ychwanegol sy'n ategu'r ddarpariaeth ddysgu gyffredinol ac ychwanegol y mae'r ysgol yn ei darparu.

Mae llawer o'r plant sydd ag anghenion cymhleth a pharhaus yn cael eu clustnodi'n gynnar drwy weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'i gilydd ar y cyd â'r rhieni. Mae hyn yn galluogi cynlluniau i gael eu gwneud i ddarparu ymateb cynnar i ddiwallu anghenion o'r fath ac i ddarparu cymorth.

### **1.2 Asesiad**

Mae gweithwyr proffesiynol yn monitro cynnydd yr holl blant a phobl ifanc a thrafodir unrhyw bryderon gyda'r rhieni mewn cyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, eir i'r afael â'r pryderon hyn drwy gynnig Darpariaeth Ddysgu Gyffredinol yr ysgol, sydd ar gael i bob dysgwr.

Bydd Darpariaeth Ddysgu Gyffredinol ysgolion yn cynnwys:

- addysgu a dysgu da;
- strategaethau addysgu wedi'u targedu i gefnogi anghenion dysgwyr sy'n dod i'r amlwg neu anghenion a nodwyd, ac;
- ymyriadau safonol wedi'u targedu, i alluogi dysgwr i wneud cynnydd mesuradwy.

Lle nad yw plant a phobl ifanc yn gwneud cynnydd mesuradwy, er gwaethaf Darpariaeth Ddysgu Gyffredinol yr ysgol, efallai y bydd angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol ar y dysgwyr i gefnogi eu hanghenion. Gall y Cydlynnydd ADY geisio cynnwys gweithwyr proffesiynol eraill fel athrawon ymgynghorol, athrawon cefnogi ymddygiad, gwasanaethau iechyd a seicolegwyr addysg a phlant i helpu i nodi'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol

Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i'r disgybl, y rhieni, yr athrawon a'r Cydlynnydd ADY. Gall pryderon o'r fath arwain at nodi dysgwr fel un sydd â Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol a bod Cynllun Datblygu Unigol yn cael ei baratoi. Os nad yw'r ysgol yn gallu adnabod yr ADY, nodi'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol sydd ei angen neu'n rhesymol sicrhau'r ddarpariaeth yna gall gyfeirio at yr Awdurdod Lleol i'w hystyried.

Mewn ymateb i gais o'r fath, mae'r Awdurdod Lleol yn ceisio gwybodaeth gan:

- y rhieni
- y plentyn
- yr ysgol
- Athrawon Dosbarth
- Cydlynnydd
- Staff cymorth

Gall yr Awdurdod Lleol ofyn am wybodaeth ychwanegol neu gymorth arall gan bobl berthnasol i gyflawni eu swyddogaethau:

- Seicolegydd Addysg a Phlant
- Ffisiotherapydd
- Pobl Broffesiynol ym Maes Iechyd e.e. Pediatregydd
- Therapydd Iaith a Lleferydd
- Therapydd Galwedigaethol
- Gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol
- unrhyw asiantaeth arall y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ymwneud â hi

Mae'r Panel ADY yn ystyried anghenion dysgwyr a'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol sydd ei hangen. Yn dibynnu ar y penderfyniad, gall yr awdurdod lleol wneud un o'r canlynol:

- paratoi'r Cynllun Datblygu Unigol a rhoi cyfarwyddyd i'r ysgol i'w gynnal neu;
- baratoi a chynnal y Cynllun Datblygu Unigol.

Mae'r Cynllun Datblygu Unigol yn ddogfen gyfreithiol sy'n nodi ac yn mesur y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w darparu.

Pan fo Cynllun Datblygu Unigol yn enwi ysgol benodol, mae'n rhaid derbyn y disgybl i'r ysgol a enwir yn y Cynllun Datblygu Unigol.

### **1.3 Darpariaeth**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn disodli Deddf Anabledd a Gwahaniaethu 1995. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cysoni cyfraith gwahaniaethu ac yn darparu fframwaith deddfwriaethol symlach, sydd wedi'i gryfhau a'i ddiweddarau i ddiogelu hawliau unigolion a hawlio cyfle cyfartal. Mae gan ysgolion ac awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion anabl ers 2002, yn wreiddiol o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ac, o fis Hydref 2010, o dan y Ddeddf. Mae'r Awdurdod Lleol wedi datblygu Strategaeth Gynhwysiant i sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, y gellir diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol mewn lleoliad prif ffrwd Nodir manylion y dull hwn yn ei Lawlyfr Cynhwysiant ar gyfer Ysgolion.

Bydd anghenion y rhan fwyaf o blant sydd â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig a Chynlluniau Datblygu Unigol yn cael eu diwallu mewn ysgolion prif Ffrwd

Mae'r rhan fwyaf yn cael cymorth ychwanegol yn eu hystafell ddosbarth brif ffrwd. Mae rhai plant sydd ag anawsterau ychwanegol cymhleth yn cael cymorth ychwanegol oddi wrth staff mewn unedau arbenigol a chanolfannau adnoddau sy'n gysylltiedig ag ysgolion prif ffrwd.

Yn achos nifer fach iawn o ddisgyblion, mae'n bosibl nad oes gan yr Awdurdod Lleol, ar hyn o bryd, y cyfleusterau a'r adnoddau i gynorthwyo unigolion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion prif ffrwd. Wedyn caiff anghenion y disgyblion hyn eu diwallu yn un o'n dwy ysgol arbennig.

### **1.4 Gweithio mewn Partneriaeth**

Mae'r Gwasanaethau Addysg a Phlant yn dilyn dull partneriaeth o weithio gyda rhieni disgyblion sydd ag ADY neu AAA.

Gall rhieni gyfrannu i'r bartneriaeth hon drwy::

- siarad â Phennaeth a Chydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol eu hysgol leol, cymryd rhan yn yr asesiad o anghenion, cynllunio ymyriadau a thrafodaethau â gweithwyr proffesiynol.
- cysylltu â'r Awdurdod Lleol a thrafod gydag un o'n Swyddogion Cyswllt Teuluol.
- cysylltu â Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni a ddarperir gan SNAP Cymru ar 01554 777566 neu drwy e-bost [carm@snapcymru.org](mailto:carm@snapcymru.org)

Mae Sir Gaerfyrddin wedi integreiddio'i gwasanaethau Cynhwysiad (Addysg) ac Anabledd (Gofal Cymdeithasol) er mwyn cynnig gwasanaethau gwell i blant a'u teuluoedd. Mae cyfleoedd rheolaidd i rieni gael gwybodaeth, newyddlenni a chyfarfodydd gyda Swyddogion Cynhwysiad i'w galluogi i drafod a chydweithio â'r Adran.

Pan fydd gan blant a phobl ifanc anawsterau dysgu sylweddol ac anghenion cymhleth, mae'n bosibl y byddant hwy a'u teuluoedd yn cael cymorth gan un o weithwyr allweddol y Tîm Anableddau Plant er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hasesu, bod gwasanaethau'n cael eu clustnodi a'u hadolygu'n rheolaidd.

Mae hyn yn fodd i sicrhau cysondeb o ran diwallu anghenion cymhleth ym mhob sefydliad.

### **Sefydliadau Anghenion Addysgol Arbennig**

Mae gan Sir Gaerfyrddin amrywiaeth o sefydliadau arbenigol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol ychwanegol a bydd Panel Cynhwysiad y Sir yn cymeradwyo lleoliadau yn y manau hyn. I gael gwybodaeth ynghylch pob sefydliad, cysylltwch â'r Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhif ffôn: 01267 246451) a fydd yn ymateb i ymholiadau ynghylch y lleoliadau.

## **2. Cyngor Sir Caerfyrddin – Polisi Cludiant Ysgol**

Mae'r datganiad hwn yn pennu polisi cyffredinol Cyngor Sir Caerfyrddin o ran darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol/ coleg. Darperir cludiant yn unol â gofynion statudol Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Roedd y polisi hwn yn gywir ar 1 Hydref 2023. Mae'r polisi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd, ac ymgynghorir ynghylch unrhyw newidiadau iddo.

### **2.1 Y Polisi cyffredinol o ran darparu cludiant am ddim i'r ysgol**

Bydd disgyblion yn gymwys i gael cludiant am ddim i'r ysgol os ydynt yn bodloni'r HOLL feini prawf canlynol:

- yn breswylwyr Sir Gaerfyrddin (h.y. caiff y Dreth Gyngor ar gyfer y cyfeiriad cartref cofrestredig ei thalu i Sir Gaerfyrddin). Mae'r "cyfeiriad cartref" fel y'i diffinnir yn y llyfryn "Derbyn i Ysgolion - Gwybodaeth i Rieni" a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod, ac mae "rhiant" fel y'i diffinnir yn Adran 576 o Ddeddf Addysg 1996. Sylwer bod y cyfeiriad cartref cofrestredig a chyfrifoldeb rhiant yn cael eu gwirio yn ystod y cam ymgeisio yn ôl y cofnodion a gedwir gan yr ysgol a'r Awdurdod Addysg.
- o oedran ysgol gorfodol;

- yn mynychu ysgol agosaf neu ysgol ddynodedig yr ALL; (sef ysgol "ddynodedig" cyfeiriad cartref cofrestredig y disgybl; yr ysgol "agosaf" yw'r ysgol addas agosafel y penderfynir gan yr Awdurdod Addysg ac mae'n cael ei fesur yn ôl y llwybr gyrru byrraf sydd ar gael fel y'i mesurir gan system fapio y Cyngor, ac yn cynnwys ysgolion mewn siroedd cyfagos os yw'n berthnasol);
- yn byw dros y "pellter statudol" o'r ysgol. Diffinnir y "pellter statudol" fel a ganlyn: 2 filltir (3.218 cilometr) ar gyfer ysgolion cynradd a 3 milltir (4.828 cilometr) ar gyfer ysgolion uwchradd, a chaiff ei fesur yn ôl y llwybr agosaf sydd ar gael o'r pwynt agosaf lle bydd cyfeiriad yr ymgeisydd yn cysylltu â'r briffordd gyhoeddus i'r fynedfa agosaf i'r ysgol. Er y cyfeirir weithiau at y pellter fel 'pellter cerdded', nid yw hynny'n awgrymu bod disgwyl i'r dysgwr gerdded o reidrwydd, ond o fewn y pellter hwn disgwylir l riant/gwarcheidwad wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer taith y dysgwr i'r ysgol ac yn ôl adref, ar eu cost eu hunain.

Mae'n BOSIBL y darperir cymorth hefyd i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn amgylchiadau penodol am y rhesymau canlynol:

- Diogelwch Ffyrdd, lle nad oes llwybr cerdded i'r ysgol. Asesir y llwybr
- cerdded rhwng cyfeiriad y cartref a'r ysgol yn unol â chanllawiau "Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)" ynghylch asesu risg llwybrau cerdded i ysgolion.
- Cyflwr Meddygol. Gellir gwneud trefniadau cludiant unigol lle mae cyflwr meddygol dysgwr naill ai yn ei rwystro rhag gwneud defnydd o'r cludiant arferol neu lle mae ei gyflwr yn ei rwystro rhag cerdded y "pellter cerdded" diffiniedig. Mae'n rhaid i bob cais am gymorth ar sail feddygol gael ei ategu gan dystysgrif feddygol neu ddatganiad wedi'i lofnodi gan ymarferydd meddygol a rhaid iddo nodi'n glir nad yw'r dysgwr yn gallu cerdded y "pellter statudol" penodol i'r ysgol. Bydd pob datganiad yn amodol ar gyfnod adolygu a bennir gan y cyflwr ac y cytunwyd arno gyda'r rhiant pan wnaed y dyfarniad cychwynnol.
- Dysgwyr ag anawsterau dysgu/anabledau - gweler pwynt 4 isod.
- Dysgwyr sy'n newid preswylfa yn ystod y blynyddoedd TGAU. Rhoddir cymorth os bydd dysgwr yn newid preswylfa yn ystod eu blynyddoedd TGAU (ar ôl gwyliau hanner tymor yr Hydref ym mlwyddyn gyntaf yr astudiaethau TGAU - blwyddyn 10) ar yr amod bod y dysgwr yn bodloni'r meini prawf o ran oedran a phellter y cartref newydd, a'i fod, cyn newid ei breswylfa yn mynychu'r ysgol agosaf neu ysgol ddynodedig yr ALL. Byddai cludiant yn cael ei gynnis tan ddiwedd blwyddyn 11 yn unig, ar y cerbyd agosaf sydd ar gael ac o'r man casglu agosaf sydd ar gael



- Credoau Crefyddol. Caiff cludiant ei ddarparu fel arfer os bydd rhieni yn dewis anfon dysgwyr i ysgol wirfoddol a gynorthwyr am resymau crefyddol, ar yr amod fod ydysgwr yn bodloni'r meini prawf o ran oedran ac isafswm pellter teithio, ac nad ydynt yn byw fwy nag 8 milltir o'r ysgol. Mae trefniadau ychwanegol ar gyfer Ysgol Sant Ioan Llwyd, Llanelli - gofynnwch i'r Uned Cludiant Teithwyr am wybodaeth.

Cyfrifoldeb rhieni yw trefniadau a chostau cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim. Cynghorir rhieni i gysylltu â'r Awdurdod cyn penderfynu ar eu dewis ysgol er mwyn gweld a yw'r disgybl yn gymwys i gael cludiant ysgol am ddim.

Ar sail cyfeiriad cartref y disgybl yn unig y caiff ceisiadau eu hasesu (sef y cyfeiriad a gofrestrwyd gyda'r ysgol a'r ALI) a dim ond o'r cyfeiriad hwnnw y darperir cludiant fel arfer. Mae rhieni'n gyfrifol am roi gwybod i'r Uned Cludiant Teithwyr cyn unrhyw newid cyfeiriad, fel y gellir ailasesu cymhwysedd ar gyfer cludiant o'r cyfeiriad newydd. NID yw hawl i gael cludiant yn cael ei throsglwyddo'n awtomatig gydag unrhyw newid cyfeiriad, hyd yn oed os yw'r cludiant wedi'i ddarparu drwy'r broses apelio.

Mae'n ofynnol i awdurdodau wneud darpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n byw mewn mwy nag un cyfeiriad, e.e. trefniadau rhannu gofal. Rhaid i drefniadau o'r fath fod yn barhaol a sefydlog a dim ond ar gyfer y cyfnodau hynny pan fydd dysgwr yn cael addysg a hyfforddiant (nid mewn achosion lle bydd dysgwr yn treulio penwythnos gyda rhiant mewn man gwahanol i'w gyfeiriad yn ystod yr wythnos ysgol). Gellir cael rhagor o gyngor a ffurflenni cais ar gyfer cludiant o ddau gyfeiriad oddi wrth yr Uned Cludiant Teithwyr.

Caiff mwyafrif y disgyblion sydd â hawl i gael cludiant ysgol am ddim eu cludo ar gerbydau sydd wedi'u contractio'n benodol i'r Awdurdod. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gwneir defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus hefyd. Mewn rhai amgylchiadau efallai y rhoddir lwfans milltiroedd neu grant ar gyfer rhan o'r daith neu'r daith gyfan (gweler pwynt 3 isod).

Nid yw bob amser yn bosibl trefnu bod llwybrau'r cerbydau yn pasio'n agos at gartrefi'r holl ddisgyblion, ac efallai na fydd bob amser yn bosibl trefnu bod disgyblion yn mynd ar y llwybr bws agosaf at eu cyfeiriad cartref. Mae rhieni felly yn gyfrifol am wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer cludo dysgwyr yn ôl ac ymlaen o'r arhosfan ddynodedig. Fel arfer ni fydd y pellter hwn yn fwy na 1.5 milltir.

Bydd cludiant yn cael ei drefnu ar gyfer dechrau a diwedd pob diwrnod ysgol yn unig.

Mae'r ddarpariaeth o gludiant am ddim yn cael ei wneud ar y ddealltwriaeth y bydd disgyblion yn ymddwyn mewn modd sydd â pharch tuag at gyd-ddisgyblion, eiddo a diogelwch pawb. Rhaid i bob un sy'n ymwneud â darparu a defnyddio cludiant ysgol gadw at y "Côd Ymddygiad ar gyfer Teithio o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg".

Gellir cael copïau o'r côd ar: [www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/cludiant-ysgol](http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/cludiant-ysgol) neu drwy wneud cais i'r Awdurdod.

## **2.2 Trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn cael cludiant am ddim**

Mae'r Awdurdod yn annog dulliau cynaliadwy o deithio i'r ysgol ac oddi yno. Er enghraifft, bydd yr Awdurdod yn annog dysgwyr i gerdded, beicio neu deithio ar drafnidiaeth cyhoeddus yn hytrach nag mewn car preifat lle bo hynny'n bosibl. Diffinnir dulliau cynaliadwy o deithio fel rhai y bydd yr Awdurdod yn ystyried eu bod yn gwella lles corfforol y rhai sy'n eu defnyddio neu les amgylcheddol holl ardal yr Awdurdod Lleol neu ran ohoni.

Gellir cael gwybodaeth am fysiau lleol a gwasanaethau trên gan Traveline Cymru: [www.Traveline.Cymru](http://www.Traveline.Cymru) neu drwy ffonio 0800 464 0000. Mae gwybodaeth a chyngor ar gael hefyd gan y Cyngor Sir: [www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/teithio-ffyrdd-a-pharcio](http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/teithio-ffyrdd-a-pharcio) neu drwy ffonio 01267 228326. Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda darparwyr trafndiaeth gyhoeddus er mwyn annog darpariaeth addas ar gyfer teithio o'r cartref i'r ysgol lle bo hynny'n bosibl.

Mewn rhai ardaloedd, mae'r Awdurdod wedi llwyddo i ddatblygu nifer o lwybrau trafndiaeth gyhoeddus sy'n caniatáu i ddysgwyr sy'n byw o fewn y "pellter statudol" deithio drwy dalu am docyn, yn amodol ar y lle sydd ar gael. Mae'r tâl yn daladwy i'r gyrrwr ar ddechrau pob taith, ac nid oes angen gwneud cais ymlaen llaw.

Mae gan yr Awdurdod hefyd nifer fach o seddau gwag ar gael ar rai cerbydau contract y gellir eu cynnig dros dro i'r rheiny sy'n talu ffi weinyddol fel consesiwn i ddysgwyr sy'n byw o fewn y "pellter statudol" ac sydd heb fedru cael cludiant cyhoeddus, ar yr amod fod y pellter i'r ysgol yn fwy na milltir a bod y dysgwr yn mynychu ysgol ddynodedig yr ALI neu'r ysgol agosaf. Bydd yr Awdurdod yn penderfynu faint o seddi gwag i'w cynnig a bydd yn rhoi blaenoriaeth, yn y lle cyntaf, i ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim. Bydd unrhyw seddau sydd dros ben wedyn ar gael i ddisgyblion eraill. Cynigir pob sedd yn ôl oed gyda'r plant ifancaf yn cael blaenoriaeth.

Bydd yr Awdurdod yn tynnu unrhyw gonsesiwn yn ôl os bydd angen drwy roi saith

diwrnod o rybudd ysgrifenedig. Rhaid gwneud cais am seddau gwag erbyn y dyddiad a bennir (fel arfer cyn diwedd Medi) a phenderfynir ar y ceisiadau ym mis Hydref bob blwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth am y polisi hwn ar gael ar-lein drwy fynd i <https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/cludiant-ysgol/> lle gellir gwneud cais hefyd

### **2.3 Talu treuliau teithio**

Mewn rhai achosion mae'n bosibl na fydd cludiant cyhoeddus addas neu gerbydau contract ar gael ar gyfer taith gyfan neu ran o daith y dysgwr. Yn yr amgylchiadau hyn bydd yr Awdurdod yn cynnig lwfans milltiroedd sefydlog neu grant fel y gall rhiant neu warcheidwad gludo'r disgybl i'r ysgol (neu i fan priodol i gwrrd â cherbyd addas os yw'r pellter hwnnw'n fwy na 1.5 milltir). Dim ond os yw'r dysgwr yn gymwys i gael cludiant am ddim yn unol â'r polisi hwn, ac na all yr Awdurdod ddarparu cludiant o'r fath, y telir treuliau teithio.

### **2.4 Dysgwyr ag anawsterau dysgu/anabledau**

Bydd dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn destun i'r meini prawf cymhwys a ddisgrifir yn adran 1 uchod. Fodd bynnag, gellir darparu cludiant hefyd i ddysgwyr nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn ond lle mae'r gofyniad am gludiant wedi'i nodi fel rhan o Ddatganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod neu lle mae'r dysgwr yn destun y weithdrefn asesu statudol, oherwydd anawsterau dysgu y mae'r ALI yn ystyried bod cludiant felly yn "angenrheidiol".

Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu i benderfynu ar y math a natur y cludiant arbenigol sydd ei angen, os o gwbl. Caiff yr asesiadau hyn eu hadolygu bob blwyddyn.

### **2.5 Ymholiadau a chwynion**

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y polisi hwn ar gael gan Uned Cludiant Teithwyr yr Awdurdod ym Mharc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin SA31 1HQ, rhif ffôn 01267 228313.

Dylai cwynion ynghylch gweithrediad y gwasanaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol gael eu gwneud i'r Uned Cludiant Teithwyr ym Mharc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin SA31 1HQ. Rhif Ffôn: 01267 228326.

Caiff rhieni sydd wedi cyflwyno cais am gludiant am ddim ac wedi cael eu gwrthod apelio yn erbyn y penderfyniad, a byddant yn cael gwybod am y broses apelio gyda'r hysbysiad ysgrifenedig yn gwrthod y cais

### **2.6 Sut mae gwneud cais am gludiant am ddim i'r ysgol**

Rhaid i'r holl ddysgwyr sy'n gymwys i gael cludiant am ddim wneud cais

ysgrifenedig i'r Awdurdod gan ddefnyddio'r ffurflen gais a gyhoeddwyd. Gellir cyflwyno ceisiadau ar-lein: [www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/cludiant-ysgol](http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/cludiant-ysgol)

Rhaid cyflwyno ceisiadau am gludiant o leiaf 15 diwrnod cyn y dyddiad cyntaf y mae angen y cludiant, neu erbyn 1 Mehefin lle mae angen y cludiant ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd newydd.

Os caiff y cais ei gymeradwyo, bydd yr Awdurdod yn anfon Cerdyn Teithio atoch. Gyda'r Cerdyn Teithio rhoddir manylion am y llwybr bws i'w ddefnyddio, ynghyd â chopi o'r "Côd Ymddygiad" y mae'n rhaid cadw ato bob amser. Bydd y Cerdyn Teithio fel arfer yn cael ei gyhoeddi o fewn 15 diwrnod ar ôl gwneud y cais, er y bydd yr amserlen hon yn cael ei hymestyn yn achos ceisiadau a wnaed rhwng Mehefin a Medi, ac ni fyddant yn gymwys i ddysgwyr sy'n trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (gweler isod).

Mae'n rhaid i ddysgwyr sy'n trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd gyflwyno'r cais priodol am gludiant erbyn 20 Rhagfyr 2022. Bydd y ceisiadau'n cael eu gwirio i gadarnhau bod y dysgwr yn mynychu'r ysgol agosaf neu ysgol ddynodedig y dalgylch.

Os caiff hynny ei gadarnhau caiff y cais ei asesu wedyn gan yr Uned Cludiant Teithwyr i benderfynu ar yr hawl i gludiant am ddim. Bydd yr Uned Cludiant Teithwyr yn cadarnhau neu'n gwrthod y cais am gludiant am ddim erbyn Mehefin, a chaiff Cardiau Teithio eu hanfon at ddysgwyr cymwys ym mis Awst. Os collir y Cerdyn Teithio neu os caiff ei ddirodi rhaid cysylltu â'r Awdurdod drwy ffonio 01267 234567 ar unwaith er mwyn gwneud trefniadau dros dro ar gyfer teithio (lle bo modd) ac i archebu cerdyn newydd. Codir tâl am Gardiau Teithio newydd.

## **2.7 Amodau Defnyddio Cardiau Teithio**

Rhaid cyflwyno cardiau teithio i'r gyrrwr bws ar ddechrau pob taith a wneir. Gellir gwrthod cludiant os na ddangosir y cerdyn. Nid yw cardiau teithio yn drosglwyddadwy, ac maent yn ddilys ar gyfer y dysgwr a enwir ar y cerdyn yn unig ac ar gyfer y daith/teithiau a ddangosir ar y cerdyn. Mae camddefnyddio neu ddefnydd twyllodrus o Gerdyn Teithio yn cael ei drin yn ddifrifol iawn, a gall olygu bod y dysgwr yn destun gweithdrefn ddisgyblu'r ysgol/coleg yn ogystal â cholli ei hawl i deithio.

Os bydd unrhyw fanylion yn newid o'r ffurflen gais wreiddiol, mae'n rhaid i chi gysylltu ag Uned Cludiant Teithwyr yr Awdurdod ar unwaith, fel y gellir newid y manylion ac ailasesu cymhwysedd i dderbyn cludiant os oes angen. Os oes angen Cerdyn Teithio newydd o ganlyniad i newid o'r fath, mae'n rhaid dychwelyd y

cerdyn presennol ynghyd â'r cais.

Os nad oes angen y Cerdyn Teithio arnoch mwyach, anfonwch ef yn ôl i Uned Cludiant Teithwyr yr Awdurdod oherwydd gall fod eraill yn awyddus i ddefnyddio'r sedd wag.

## **2.8 Cludiant i ddysgwyr sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol**

Mae gan yr Awdurdod bolisi dewisol i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond dan 19 oed (neu'r rheiny sydd wedi cael eu pen-blwydd yn 19 oed ond wedi dechrau'r cwrs pan oeddent dan 19 oed ac wedi parhau i ddilyn y cwrs hwnnw) cyn belled â'u bod yn mynychu ysgol agosaf neu ddynodedig yr Awdurdod Lleol neu'r campws coleg agosaf a'u bod yn byw mwy na'r pellter statudol sef 3 milltir o'r sefydliad hwnnw. Sylwch: ni wneir darpariaeth preswyliaeth ddeuol ar gyfer dysgwyr dros yr oedran ysgol gorfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gallu cynnig cymorth ariannol ar gyfer/tuag at gostau cludiant myfyrwyr sy'n derbyn addysg ôl-16. Cyflwynwyd y Lwfans Cynhaliath Addysg i gynnig cymhelliad ariannol i bobl ifanc o gartrefi incwm isel barhau ag addysg amser llawn neu hyfforddiant y tu hwnt i'r oedran addysg gorfodol. Mae'r cymorth ar gael i ddysgwyr sy'n mynychu ysgol neu goleg. Mae Grant Dysgu'r Cynulliad ar gael i ddysgwyr 19 oed a hŷn mewn addysg bellach. Yn ogystal, mae Grant Dysgu'r Cynulliad Llywodraeth Cymru'n darparu cymorth ar gyfer myfyrwyr sy'n wynebu caledi a hynny drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn sy'n cael ei dosbarthu i sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru.

## **3. Prydau Ysgol a Grant Datblygu Disgyblion**

### **Trosolwg**

Mae Gwasanaeth Prydau Ysgol Sir Gaerfyrddin yn cynnig dewis o brydau maethlon cytbwys a gwerth yr arian i bob ysgol yn y sir. Mae prydau ysgol yn bwysig o ran dysgu sgiliau cymdeithasol i blant a chyflwyno dewisiadau bywd gwahanol ac amrywiol.

Cynigir brechwast am ddim i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd a chânt ddewis o bryd dau gwrs bob dydd, ac mae gan ddisgyblion ysgolion uwchradd ffreuturau sy'n cynnig dewis o brydau, byrbrydau, ffrwythau a phwdinau i ddisgyblion, sydd ar gael amser cinio ac yn yr egwyl canol bore.

Os oes gan eich plentyn anghenion dietegol arbennig dylech roi gwybod i'r ysgol a'r staff arlwygo ac fe wnaiff y gwasanaeth ei orau i ddarparu ar gyfer y gofynion hynny.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu cyfleusterau ar gyfer cynnig dŵr yfed i ddisgyblion adeg prydau bwyd.

### **3.1 Brecwast am ddim**

Mae'r Gwasanaeth Arlwygo Ysgolion yn cynnal gwasanaeth brecwast am ddim mewn 97 o leoliadau (o fis Gorffennaf 2022). Mae brecwast yn cael ei gydnabod yn bryd pwysicaf y dydd, ac mae'r dystiolaeth yn dangos bod cysylltiad rhwng brecwast iach a gwell iechyd a gwell canolbwyntio yn ystod y diwrnod ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau brecwast yn agor am 8:15am a gall ddisgyblion ddewis o ystod o opsiynau ar gyfer brecwast.

### **3.2 Bwydlenni Prydau Ysgol**

Mae prydau ysgol yn gyfraniad pwysig at ddeiet plant a phobl ifanc. Mae ein bwydlenni mewn ysgolion yn cydymffurfio â Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 Llywodraeth Cymru. Gellir hefyd darparu ar gyfer anghenion arbennig o ran diet ar gais ysgrifenedig rhieni/gwarcheidwad.

Mae prisiau presennol prydau ysgol ar gael drwy ParentPay sef ein system enwebedig i gasglu taliadau ar-lein ar gyfer prydau ysgol ([www.parentpay.com](http://www.parentpay.com)). Mae holl ffreuturau ysgolion uwchradd hefyd yn gweithredu system til arlwygo ddiarian.

### **3.3 Prydau Ysgol Am Ddim**

Gallech fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os ydych chi'n derbyn un o'r budd-daliadau canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith
- Credyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Credyd Treth Plant a bod eich incwm blynyddol yn llai £16,190
- Credyd Cynhwysol a bod incwm net blynyddol eich aelwyd yn llai na £7,400
- Cymorth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999

Os ydych yn derbyn Credyd Treth Gwaith yn ogystal ag unrhyw un o'r budd-daliadau hyn, ni fyddwch yn gymwys, hyd yn oed os yw incwm yr aelwyd yn is na £16,190.

Sylwer: Mae gan blant sy'n derbyn un o'r budd-daliadau eu hunain hawl i Brydau Ysgol am ddim hefyd. Mae gan Lywodraeth Cymru adran Cwestiynau Cyffredin ynghylch canllawiau ar gyfer prydau ysgol am ddim sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol. <https://llyw.cymru/prydau-ysgol-am-ddim-cwestiynau-cyffredin>

## **Prydau Ysgol Am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd ar gyfer disgyblion meithrin a derbyn amser llawn**

Bydd Prydau Ysgol Am Ddim ar gael i bob disgybl hyd at flwyddyn 4 o fis Medi 2023 ac yn cael eu cyflwyno i bob grŵp blwyddyn erbyn mis Ebrill 2024. Cofiwch NAD YW disgyblion rhan-amser na'r rhai mewn lleoliadau gofal plant (hyd yn oed os yw'r lleoliad mewn ysgol e.e., Cylch Meithrin) yn gymwys.

Mae'r cynllun Prydau Ysgol am Ddim presennol yn parhau i fod ar waith ar gyfer POB disgybl amser llawn cymwys arall sydd ar y gofrestr yn ysgolion Sir Gaerfyrddin.

Mae'r ddarpariaeth hon ar gael i bob disgybl meithrin, derbyn a blynyddoedd 1-4 amser llawn yn ysgolion Sir Gaerfyrddin. I'n helpu ni i gynllunio ar gyfer darparu prydau bwyd, ac i sicrhau eich bod yn cael cymaint o gymorth â phosib, cofrestrwch ar gyfer prydau ysgol er mwyn:

- Sicrhau bod gan staff arlwyo wybodaeth bwysig am y niferoedd sy'n manteisio ar y cynllun Prydau Ysgol Am Ddim i bob plentyn Ysgol Gynradd
- Gallu nodi gofynion dietegol unigol ar gyfer eich plentyn
- Cael gafael ar gymorth ariannol arall y gallech fod â hawl iddo e.e. grant datblygu disgyblion (gwisg ysgol)
- Cefnogi ysgol eich plentyn i fanteisio ar gyfleoedd ariannu ychwanegol

Bydd amserlen Sir Gaerfyrddin ar gyfer cyflwyno'r cynllun hwn i'r disgyblion hynny (Blwyddyn 1 ac uwch) yn cael ei chyhoeddi cyn gynted â phosib.

<https://gov.wales/free-school-meals-frequently-asked-questions>

## **Sut yr wyf yn gwneud cais am Brydau Ysgol am Ddim?**

Gallwch chi wneud cais am brydau ysgol am ddim ar-lein drwy ein gwefan:

[www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)

## **Sut y byddaf yn gwybod a wyf wedi bod yn llwyddiannus ac a oes angen i mi wneud cais bob blwyddyn?**

Ar ôl i ni dderbyn eich cais ar-lein, byddwn yn ceisio ei brosesu o fewn 5 diwrnod gwaith. Cewch wybod am y dyfarniad drwy neges e-bost. Nid oes angen ailymgeisio ar gyfer pob blwyddyn ysgol newydd, bydd yr hawl i brydau ysgol am ddim yn dilyn eich plentyn yn awtomatig.

## **Pryd y mae angen i mi roi gwybod i chi ynghylch newid mewn amgylchiadau?**

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith os yw unrhyw un o'r manylion ar eich cais wedi newid, gellir gwneud hyn ar-lein drwy ein gwefan: [www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)

Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni, efallai bydd eich cymhwysedd yn cael ei ganslo, ac efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am unrhyw brydau bwyd a gawsoch pan nad oeddech yn gymwys i'w cael.

- Mae angen i chi ddweud wrthym os yw eich plentyn yn symud i ysgol arall e.e. cynradd i uwchradd neu i ysgol arall yn Sir Gaerfyrddin neu i ysgol y tu allan i Sir Gaerfyrddin.
- Mae angen i chi roi gwybod i ni os yw eich amgylchiadau yn newid e.e.
  - Pan fyddwch yn dechrau gweithio
  - Newidiadau o ran eich budd-daliadau
- Mae angen i chi roi gwybod i ni os ydych chi a'ch plentyn yn newid cyfeiriad
- Mae angen i chi roi gwybod i ni os oes gennych blentyn arall yn dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf
- Mae angen i chi roi gwybod i ni os nad yw'ch plentyn yn byw gyda chi mwyach ac a ddylai rhywun arall fod yn hawlio ar ran eich plenty

Manylion Cyswllt: [PrydauYsgolamDdim@sirgar.gov.uk](mailto:PrydauYsgolamDdim@sirgar.gov.uk) Ffôn: 01267 246521

### **3.4 Darparu Llaeth**

Mae dau gynllun ar waith gan yr Awdurdod er mwyn darparu llaeth am ddim i blant, sef y cynllun dan 5 oed a weinyddir yn unol â'r Uned Ad-daliadau Llaeth Genedlaethol (NMRU) a chynllun Cyfnod Allweddol 1 a weinyddir yn unol â Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2001. Mae'r ddau gynllun yn derbyn cymhorthdal o dan Gynllun y GE i ddsbarthu Llaeth mewn Ysgolion.

Mae plant unigol dros 5 oed hefyd yn medru derbyn llaeth am ddim am resymau meddygol a phan fônt yn mynychu ysgolion neu unedau arbennig. Caniateir i ysgolion wneud eu trefniadau lleol eu hunain os ydynt yn dymuno cyflwyno cynlluniau llaeth sy'n talu amdanynt eu hunain.

### **3.5 Grant gwisg ysgol ac offer**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn rhoi cymorth ariannol i deuluoedd ar incwm isel i brynu:



- Gwisg ysgol gan gynnwys cotiau ac esgidiau;
- Cit chwaraeon ysgol gan gynnwys esgidiau;
- Gwisg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sgowtiaid; geidiaid; cadetiaid; crefft ymladd; chwaraeon; celfyddydau perfformio neu ddawns;
- Offer e.e. bagiau ysgol a deunyddiau swyddfa;
- Offer arbenigol lle mae gweithgareddau cwricwlwm newydd yn dechrau megis dylunio a thechnoleg; a
- Offer ar gyfer teithiau y tu allan i oriau ysgol fel dysgu yn yr awyr agored e.e. dillad glaw.

Sylwch y gallai'r rhestr uchod newid.

### **Pwy sy'n gymwys?**

Mae cyllid ar gael i ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol (2023/2024). Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi lefel y cyllid a grwpiau blwyddyn cymwys ar gyfer bob blwyddyn academaidd. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf ar ein gwefan: [www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)

### **Sut mae gwneud cais?**

Gallwch wneud cais am Grant Datblygu Disgyblion o fewn munudau ar-lein drwy ein gwefan: [www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)

## **4. Lwfans Cynhaliath Addysg (EMA)**

Mae'r Lwfansau hyn ar gael i fyfyrwyr sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol sy'n dewis aros ymlaen yn yr ysgol. Mae gwybodaeth lawn am y lwfansau a'r grantiau hyn, a sut i gyflwyno cais amdanynt ar gael yn yr ysgol.

## **5. Y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion**

Mae'r Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion yn gweithio ar ran yr awdurdod lleol i gefnogi presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol ac ymgysylltu mewn addysg. Mae'r tîm hefyd yn gweithio i sicrhau diogelu mewn lleoliadau ysgol ac yn goruchwyllo Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae staff yn hyrwyddo ymgysylltu â theuluoedd i alluogi teuluoedd i oresgyn rhwystrau i bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol ac ymgysylltu mewn addysg. Y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig dros oruchwyllo perfformiad plant; cyflogaeth plant; a thrwyddedau i hebryngwyr ar draws yr awdurdod.

Mae'r Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion hefyd yn gweithredu ar ran yr awdurdod lleol wrth orfodi dyletswydd rhieni i ddarparu addysg briodol o dan Ddeddf Addysg (1996) (2002).

Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, gwasanaethau plant, teuluoedd a phartneriaid ehangach. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch 01554 742369.

## 6. Ymddiriedolaethau Elusennol

Mae'r Awdurdod yn gweinyddu nifer o gronfeydd ymddiriedolaeth elusennol sy'n gallu cynnig cymorth o ran treuliau'r rheiny sy'n mynychu cyrsiau addysg bellach neu addysg uwch. Yn bennaf, mae pob un o'r gronfeydd ymddiriedolaeth hyn wedi'u sefydlu er budd plant sydd wedi mynychu ysgol neu ysgolion penodol yn y Sir - er dylid nodi bod rhai ohonynt yn cynnig cymorth ariannol i gefnogi myfyrwyr o unrhyw ran o'r Sir. Dylid gofyn am fanylion pellach am gymorth ariannol o gronfeydd ymddiriedolaeth oddi wrth bennaeth yr ysgol neu fynd i'n gwefan:

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/cymorth-ariannol/cronfeydd-ymddiriedolaethau-elusennol>

## 7. Y Gwasanaeth Gyrfaoedd

Nod Gyrfa Cymru yw helpu pobl ifainc wneud y penderfyniadau anodd hynny am eu dyfodol. Mae gan y gwasanaeth y wybodaeth arbenigol ddiweddaraf am addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ac fel arfer, bydd Ymgynghorwyr Gyrfaoedd yn gweld plant yn yr ysgol o Flwyddyn 9 yn yr ysgol uwchradd ymlaen, i'w helpu i gynllunio eu dyfodol drwy:-

- rhoi cyngor am ba bynciau i'w hastudio, ac arwyddocâd eu dewis;
- cynnig cymorth wrth benderfynu ar yrfa;
- rhoi cymorth iddynt lunio cynllun gweithredu ar gyfer eu gyrfa;
- rhoi gwybodaeth am swyddi, gyrfaoedd, addysg bellach, addysg uwch a'r nifer fawr o gyrsiau hyfforddiant sydd ar gael;
- rhoi gwybod iddynt am swyddi gwag, cyfleoedd hyfforddiant, a chyrtsiau coleg, gofynion a cheisiadau mynediad;
- rhoi cymorth arbenigol i'r rhai hynny sydd ag anabledd, a hyrwyddo cyfle cyfartal, beth bynnag yw'r amgylchiadau.

Mae Gyrfa Cymru yn ceisio sicrhau bod rhieni a gwarcheidwad yn ymwybodol o'r holl wasanaethau a gynigir ac mae'n annog rhieni i gyfranogi ym mhob rhan

o'r rhaglen arweiniad gyrfaol. Er mwyn sicrhau cyfranogiad rhieni mae Gyrfa Cymru yn cynnig gwasanaeth hyblyg sy'n ymateb i anghenion rhieni o safbwynt amser, llefydd a chyd-destun ac sy'n cynnwys trafodaethau unigol â rhieni yn yr ysgol, mewn canolfannau gyrfaedd neu mewn cyfarfodydd rhieni a digwyddiadau gyrfaedd.

Gallwch gael gwybodaeth, adnoddau ac awgrymiadau i helpu'ch plentyn i wneud penderfyniadau ynghylch gyrfa a dysgu mwy am y cymorth rydym yn ei gynnig wrth i'ch plentyn fynd o addysg i gyflogaeth ar dudalennau rhieni ein gwefan. [Rhieni | Gyrfa Cymru \(llyw.cymru\)](#)

Gellir cysylltu ag Ymgynghorwyr Gyrfaedd drwy'r ysgol neu drwy Gyrfa Cymru:-  
Rhif Ffôn:- 0800 028 4844.

Gwe-sgwrs: [www.careerswales.gov.wales](http://www.careerswales.gov.wales)

E-bost: [post@careerswales.gov.wales](mailto:post@careerswales.gov.wales) e-bostiwch eich ymholiad neu'ch cwestiwn a byddwn ni'n ateb o fewn dau ddiwrnod gwaith

## 8. Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin

Gaerfyrddin Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu gwybodaeth ddwyieithog, ddiuedd a di-dâl ynghylch amrywiaeth eang o ddewisiadau gofal plant, gweithgareddau i blant a materion yn ymwneud â chymorth i deuluoedd. Mae hyn yn cynnwys talu am ofal plant a gweithio ym maes gofal plant, gwybodaeth am feithrinfeydd, gwarchodwyr plant, clybiau ar ôl ysgol, cylchoedd chwarae a grwpiau rhieni a phlant bach. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar gael i rieni, gofalwyr, cyflogwyr a gweithwyr proffesiynol yn Sir Gaerfyrddin.

Cysylltwch â'r Gwasanaeth ynghylch y canlynol:

- Cynnig Gofal Plant Cymru
- Gofal plant sydd ar gael a chyfleusterau gofal plant
- Datblygiad plant ac ymddygiad
- Gwasanaethau Addysg a Dysgu fel Teulu
- Gwasanaethau iechyd a lles
- Grwpiau cymorth ar gyfer rhieni a teuluoedd
- Chwarae, chwaraeon a chyfleusterau hamdden eraill
- Aros yn ddiogel
- Gwasanaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer plant ac oedolion ag anableddau a llawer, llawer mwy.

Yn ogystal â'ch helpu'n uniongyrchol, gall y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol eich cyfeirio at asiantaethau a sefydliadau eraill hefyd.

Gallwch gysylltu â'r gwasanaeth fel a ganlyn:

Ffôn: 01267 246555

e-bost: [gwybplant@sirgar.gov.uk](mailto:gwybplant@sirgar.gov.uk),

Gwefan: <http://fis.carmarthenshire.gov.wales>

Gwasanaeth Testun GGD:

Nodwch 'Plant' ar ddechrau eich neges a'i hanfon at 07786 202747

## 9. Y Cynnig Gofal Plant

I gael rhagor o wybodaeth am Gynnig Gofal Plant Cymru, cysylltwch â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin drwy ffonio 01267 246555 neu drwy fynd i'r wefan: <https://fis.carmarthenshire.gov.wales/?lang=cy>

## 10. Cynllun Ysgolion Hybu Iechyd

Mae'r Cynllun Ysgolion Hybu Iechyd wedi bod ar waith yn llwyddiannus ers mis Medi 2001 ac mae pob ysgol gynradd, ysgol uwchradd a sefydliad dysgu ychwanegol yn Sir Gaerfyrddin bellach yn rhan o'r fenter. Mae 'Ysgol Hybu Iechyd' yn un sy'n cymryd cyfrifoldeb am gynnal a hybu iechyd pawb sy'n 'dysgu, gweithio, chwarae a byw' ynddi drwy wreiddio'r saith pwnc iechyd sy'n gysylltiedig â'r cynllun wrth weithredu Dull Ysgol Gyfan.

Y saith pwnc yw:

- Bwyd a Ffitrwydd
- Iechyd a Lles Meddyliol ac Emosiynol
- Datblygiad Personol a Chydberthynas
- Defnyddio a Chamddefnyddio Sylweddau
- Yr Amgylchedd
- Diogelwch
- Hylendid

Mae'r fenter yn cefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru o ran datblygu plant a phobl ifanc iach ac yn cefnogi'r Cwricwlwm ACRh yn sylweddol.

Mae'r fenter yn mynd drwy gyfnod trawsnewid ar hyn o bryd ac felly nid yw bellach yn gynllun sy'n seiliedig ar wobrau lle mae'n rhaid i ysgolion symud ymlaen trwy gamau 1-5 gyda'r nod o ennill y Wobr Ansawdd Genedlaethol. Mae'r 7 pwnc iechyd a nodir uchod hefyd yn cael eu diwygio gan yr Is-adran Iechyd a Gwella yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mewn ymateb i'r Fframwaith ar Sefydlu Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (Mawrth 2021), ar hyn o bryd mae'r cynllun yn cefnogi ysgolion i werthuso pa mor dda y maent yn sefydlu Dull Ysgol Gyfan mewn perthynas â'r agenda Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl gyda chymorth Offeryn Hunanwerthuso a luniwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n rhaid i ysgolion werthuso pa mor dda y maent yn perfformio mewn perthynas â chyfres o ddangosyddion o fewn 8 categori gwahanol sydd wedi'u cynnwys yn yr Offeryn Hunanwerthuso.

Mae'r categorïau hyn yn cynnwys:

1. Arweinyddiaeth ac Ymrwymiad
2. Deall anghenion dysgwyr a staff o ran eu llesiant emosiynol a meddyliol
3. Cyfrannu a chymryd rhan
4. Y gweithlu
5. Cydberthnasau
6. Help a gwasanaethau cymorth
7. Amgylchedd a chyfleusterau'r ysgol
8. Cwricwlwm

Bydd Swyddogion Hybu Ysgolion Iach Lleol yn helpu ysgolion i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn eu Hofferyn Hunanwerthuso, sicrhau bod ysgolion yn dewis meysydd blaenoriaeth ar gyfer eu Cynlluniau Gweithredu, monitro cynnydd ysgolion mewn perthynas â datblygu meysydd blaenoriaeth, rhannu arferion da ymhlith ysgolion a'u cyfeirio at bartneriaid ac asiantaethau allweddol sy'n gallu eu cefnogi ymhellach. Bydd swyddogion hefyd yn rhoi gwybod i gydweithwyr yn yr Adran Addysg a'r Is-adran Gwella Iechyd am unrhyw dueddiadau llesiant a nodwyd drwy Hunanwerthusiadau Ysgolion i sicrhau bod modd darparu'r cymorth priodol i ysgolion. Mae'r Cynllun hefyd wedi creu Pecyn Cymorth i ysgolion mewn perthynas â'r agenda hon i sicrhau bod yr Offeryn Hunanwerthuso yn cael ei gwblhau'n effeithiol ac yn parhau i fod yn broses barhaus.

I gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Ysgolion Iach, cysylltwch â Catrin Rees, Cydgysylltydd Arweiniol Ysgolion Iach: [CLRees@sirgar.gov.uk](mailto:CLRees@sirgar.gov.uk) neu Shan Thomas, Cydgysylltydd Ysgolion Iach: [ShEThomas@sirgar.gov.uk](mailto:ShEThomas@sirgar.gov.uk)

## **11. Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang**

Mae Datblygiad Cynaliadwy ac Addysg Dinasyddiaeth Fyd-eang wedi'i ymgorffori o fewn pedwar diben craidd y Cwricwlwm i Gymru. Mae holl ysgolion Sir Gaerfyrddin wedi ymrwymo i gefnogi Cyngor Sir Gaerfyrddin i fod yn garbon sero-net erbyn 2030.

Mae'r holl ddysgwyr yn cael eu cefnogi a'u hannog i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd sydd eu hangen arnynt i ymgysylltu â'r byd gan gynnwys y gred y gall pob un ohonom wneud gwahaniaeth. Trwy gamau pwrsasol mae dysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb dros yr amgylchedd naturiol ac yn gwneud cysylltiadau ar gyfer newid cadarnhaol. Mae hyn yn creu diwylliant o ofal a chyfrifoldeb ar gyfer ein cenedlaethau i ddod.

